# Adroddiad Monitro Cynllun Cydraddoldeb Strategol

# Ebrill 2022 - Mawrth 2023



Cyngor Sir CEREDIGION County Council

**Awdur:** Cathryn Morgan, Partneriaethau a Pherfformiad

**Cymeradwywyd gan y Cabinet:** 03/10/2023

**Dyddiad cyhoeddi:** 04/10/2023

# Cynnwys

**1. Cefndir** 3

**1.1 Y Ddyletswydd Cydraddoldeb Gyffredinol** 3

**1.2 Ymrwymiad i'r Gymraeg** 3

**2. Dyletswyddau Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus Cymru** 4

**2.1 Amcanion Cydraddoldeb, Cynllun Cydraddoldeb Strategol ac Adroddiad Blynyddol** 4

**2.2 Ymgysylltu** 4

**2.3 Hygyrchedd Gwybodaeth wedi'i chyhoeddi** 5

**2.4 Gwahaniaeth mewn Cyflog** 5

**2.5 Asesu Effaith** 5

**2.6 Hyfforddiant Staff** 5

**2.7 Caffael** 6

**3. Cynnydd wrth gyflawni ein hamcanion penodol yn ystod 2022-23** 6

**3.1: Adroddiad Monitro'r Cynllun Cydraddoldeb Ebrill 2022 – Mawrth 2023** 7

# 1. Cefndir

## 1.1 Y Ddyletswydd Cydraddoldeb Gyffredinol

1. Mae Deddf Cydraddoldeb 2010 yn rhoi dyletswydd sector cyhoeddus ar Awdurdodau Lleol i ystyried anghenion pob unigolyn yn eu gwaith bob dydd, wrth ddatblygu polisïau, darparu gwasanaethau ac mewn perthynas â'r cyhoedd a'u gweithwyr eu hunain. Mae'r Ddeddf yn ei gwneud hi'n ofynnol i gyrff cyhoeddus roi sylw dyledus i'r canlynol: Dileu gwahaniaethu, aflonyddu ac erledigaeth anghyfreithlon ac ymddygiad arall sy'n cael ei wahardd gan y Ddeddf.

2. Hyrwyddo cyfle cyfartal rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd warchodedig a'r rhai nad ydynt.

3. Meithrin perthynas dda rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd warchodedig a'r rhai nad ydynt.

Mae'r Ddeddf Cydraddoldeb yn ei gwneud hi'n anghyfreithlon gwahaniaethu yn erbyn pobl sy'n rhannu un neu fwy o 'nodweddion gwarchodedig'. Mae rhai pobl yn rhannu mwy nag un o'r nodweddion hyn. Gelwir hyn 'croestoriadedd'. Mae angen i ni fod yn ymwybodol o hyn wrth ystyried ein Dyletswydd Cydraddoldeb. Mae’r nodweddion gwarchodedig wedi'u rhestru isod

- Oed
- Anabledd
- Ailbennu rhywedd
- Priodas a phartneriaeth sifil
- Beichiogrwydd a mamolaeth
- Hil
- Crefydd neu gred (gan gynnwys dim cred)
- Rhyw
- Cyfeiriadedd rhywiol

### 1.2 Ymrwymiad i’r Gymraeg

Mae hyrwyddo a defnyddio'r Gymraeg yn cael ei gwmpasu gan ofynion Mesur y Gymraeg 2011 yn hytrach na'r Ddeddf Cydraddoldeb. Fodd bynnag, yng Ngheredigion mae'n bwysig ystyried gofynion y Gymraeg ochr yn ochr â nodweddion gwarchodedig y Ddeddf Cydraddoldeb er mwyn hyrwyddo dull cydweithredol o ymdrin ag anghenion pob cymuned wrth ddylunio a darparu gwasanaethau.

O dan ofynion Mesur y Gymraeg 2011, mae'n ofynnol i Gyngor Sir Ceredigion sicrhau bod gwasanaethau Cymraeg yn cael eu cynnwys wrth gynllunio a darparu gwasanaethau, a bod gwasanaethau Cymraeg yn cael eu cynnig i siaradwyr Cymraeg heb iddynt orfod gofyn amdanynt (h.y. cysyniad y cynnig gweithredol).

## 2. Dyletswyddau Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus Cymru

Mae'r Dyletswyddau Penodol yng Nghymru wedi eu nodi yn Rheoliadau Deddf Cydraddoldeb 2010 (Dyletswyddau Statudol) (Cymru) 2011 a daethant i rym ar 6 Ebrill 2011. Mae'r Dyletswyddau Penodol ar Awdurdodau Lleol yng Nghymru yn cynnwys:

- Amcanion cydraddoldeb, cynlluniau cydraddoldeb strategol ac adroddiadau blynyddol,
- Ymgysylltu,
- Hygyrchedd gwybodaeth,
- Gwahaniaeth cyflog,
- Asesu effaith,
- Hyfforddiant staff,
- Caffael.

Mae'r adroddiad hwn yn amlinellu ein hymrwymiad i fodloni gofynion Deddf Cydraddoldeb 2010 gan gynnwys Dyletswyddau Cydraddoldeb Penodol y Sector Cyhoeddus yng Nghymru.

### 2.1 Amcanion Cydraddoldeb, Cynllun Cydraddoldeb Strategol ac Adroddiad Blynyddol

Mae ein Hamcanion Cydraddoldeb wedi'u hamlinellu yn ein Cynllun Cydraddoldeb Strategol '*Ceredigion Deg a Chyfartal 2020-24*'. Mae'r cynllun yn sicrhau bod ein hamcanion yn cael eu cyflawni. Ein hamcanion cydraddoldeb yw:

1. Bod yn Gyflogwr Cyfle Cyfartal Enghreifftiol
2. Meithrin Perthnasoedd Da a Mynd i'r Afael â Rhagfarn
3. Sicrhau Ymgysylltu a Chyfranogiad
4. Sicrhau Urddas, Parch a Mynediad at Wasanaethau
5. Darparu Addysg Deg a Chynhwysol

Mae ein Gweithgor Cydraddoldeb Corfforaethol yn cyfarfod bob tri mis i fonitro cynnydd ein Cynllun Cydraddoldeb Strategol ac i drafod materion eraill sy'n ymwneud â chydraddoldeb. Cadeirydd y grŵp yw ein Heiriolydd Cydraddoldeb, sy'n aelod o Gabinet Cyngor Sir Ceredigion.

Dyma'r trydydd adroddiad blynyddol ar gynnydd ein Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2020-24, *'Ceredigion Teg a Chyfartal.'* Gellir dod o hyd i'r cynllun a'r dogfennau cysylltiedig ar Cynllun Strategol Cydraddoldeb & Amcanion - Cyngor Sir Ceredigion

## 2.2 Ymgysylltu

Pan fyddwn yn dylunio neu'n diwygio ein hamcanion cydraddoldeb, mae'n rhaid i ni ymgysylltu ag a chynnwys pobl sy'n cael eu diogelu gan y Ddeddf Cydraddoldeb, neu bobl sy'n eu cynrychioli. Mewn gwirionedd, rydym yn ymgysylltu ag unrhyw berson yr ydym yn teimlo sy'n briodol.

Mae canllawiau ymgysylltu ac ymgynghori ar gael i'r holl staff a darperir cymorth gan ein staff Cydraddoldeb a Chynhwysiant. Rhestrir rhagor o wybodaeth am ein gwaith ymgysylltu o dan Amcan 3 adroddiad monitro'r cynllun gweithredu yn Adran 3.1.

## 2.3 Hygyrchedd Gwybodaeth wedi'i chyhoeddi

Mae'r Cyngor yn cynhyrchu gwybodaeth mewn amrywiaeth eang o fformatau yn ôl yr angen ac ar gais. Mae'n ofynnol i bob dogfen gyhoeddus gynnwys y frawddeg 'mae'r ddogfen hon ar gael yn Gymraeg, neu mewn fformatau eraill ar gais'. Mae canllawiau ar fformatau hygyrch ar gael i staff ar ein gwefan fewnol.

Mae ein gwefan wedi cyflawni sgôr hygyrchedd AA ond nid yw'n gwbl hygyrch eto. Adroddir ar gynnydd o dan Amcan 4 (cam 4.12) yn yr adroddiad monitro yn Adran 3.1.

## 2.4 Gwahaniaeth mewn Cyflog

Mae ein tîm Adnoddau Dynol yn casglu a dadansoddi data sy'n ymwneud â gwahaniaeth mewn cyflog rhwng y rhywiau a chyfran ein gweithlu sy'n rhannu un neu fwy o nodweddion gwarchodedig. Cyflwynir adroddiadau blynyddol i'r Cabinet ac yna eu cyhoeddi ar ein gwefan. Adroddir ar gynnydd o dan Amcan 1 (camau 1.1 a 1.2) yn yr adroddiad monitro yn Adran 3.1.

## 2.5 Asesu Effaith

Os byddwn yn gwneud newidiadau sylweddol i'r ffordd yr ydym yn darparu gwasanaethau, mae'n rhaid i ni asesu'r effaith y gallai hyn ei chael ar y rhai sy'n defnyddio ein gwasanaethau, yn enwedig pobl sy'n rhannu un neu fwy o'r nodweddion a ddiogelir gan Ddeddf Cydraddoldeb 2010.

Mae ein hofferyn Asesu Effaith Integredig yn ein galluogi i wneud hyn. Mae hyn yn cael ei ddiwygio, byddwn yn dechrau defnyddio'r fersiwn wedi'i diweddaru yn 2023-24. Adroddir ar gynnydd o dan Amcan 3 (camau 3.9 a 3.10) yn yr adroddiad monitro yn Adran 3.1.

## 2.6 Hyfforddiant Staff

Mae gan bob aelod o staff fynediad i Bwll Dysgu Ceredigion. Mae'r adnodd dwyieithog hwn yn caniatáu i fodiwlau e-ddysgu gael eu cwblhau. Mae llawer o'n hyfforddiant staff bellach yn cael ei ddarparu'n rhithiol trwy Microsoft Teams ac mae'r defnydd o gapsiynau a chyfieithu wedi gwneud hyfforddiant yn fwy hygyrch i'r rhai sydd â nam ar eu clyw neu eu golwg. Mae ystod eang o hyfforddiant cydraddoldeb wedi'i ddarparu yn

2022-23. Adroddir ar gynnydd o dan Amcan 1 (cam 1.3) yn yr adroddiad monitro yn Adran 3.1.

**2.7 Caffael**

Mae ein polisi caffael a'n manylebau contract yn cynnwys gofynion cydraddoldeb a'r Gymraeg yn safonol.  Adroddir rhagor o fanylion o dan Amcan 4 (cam 4.15) yn yr adroddiad monitro yn Adran 3.1.

Mae angen mwy o waith i sicrhau bod cymalau budd cymunedol yn ein contractau yn cael eu hystyried i'w llawn botensial i helpu i leihau anghydraddoldebau a meithrin cysylltiadau da yng Ngheredigion. Adroddir ar hyn o dan Amcan 5 (cam 5.9) yn yr adroddiad monitro yn Adran 3.1.

## 3. Cynnydd wrth gyflawni ein hamcanion penodol yn ystod 2022-23

Mae system 'GCAG' yn dangos i ni pa mor dda mae gweithred yn perfformio neu'n cael ei chyflawni. Dangosir cyfanswm statws GCAG isod. Yn ôl y disgwyl, mae mwy o weithredoedd 'Glas' a llai o gamau gweithredu 'Ambr' yn 2022-23 wrth i ni symud i flwyddyn olaf y Cynllun Cydraddoldeb Strategol pedair blynedd hwn.

| Statws GCAG | Diffiniad | 2020-21 | 2021-22 | 2022-23 |
|---|---|---|---|---|
| **Glas** | Cam gweithredu wedi'i gwblhau | **1** | **3** | **8** |
| **Coch** | Cam gweithredu heb ddechrau / mae pryderon na chaiff ei gwblhau | **0** | **0** | **0** |
| **Ambr** | Gweithredu ychydig y tu ôl i'r targed | **14** | **17** | **10** |
| **Gwyrdd** | Cam gweithredu yn mynd rhagddo yn ôl y disgwyl | **39** | **34** | **36** |

Mae'r tabl isod yn  dangos cynnydd pob un o'n Hamcanion Cydraddoldeb.

| **Ffigyrau 2022-23** | | **Glas** | **Coch** | **Ambr** | **Gwyrdd** |
|---|---|---|---|---|---|
| 1 | Cyflogwr Cyfle Cyfartal | **1** | **0** | **2** | **5** |
| 2 | Meithrin Perthnasoedd Da a Mynd i'r Afael â Rhagfarn | **1** | **0** | **0** | **5** |
| 3 | Ymgysylltu a Chyfranogiad | **1** | **0** | **4** | **7** |
| 4 | Urddas, Parch a Mynediad i Wasanaethau | **3** | **0** | **4** | **10** |
| 5 | Addysg Deg a Chynhwysol | **2** | **0** | **0** | **9** |

## 3.1: Adroddiad Monitro'r Cynllun Cydraddoldeb  Ebrill 2022 – Mawrth 2023

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Amcan 1: Cyflogwr Cyfle Cyfartal Enghreifftiol.**<br>**Bod yn gyflogwr cyfle cyfartal, gyda staff wedi'u hyfforddi ac yn ymwybodol o anghenion a materion sy'n gysylltiedig â chydraddoldeb. Parhau i gau'r bwlch cyflog rhwng y rhywiau.** | | | |
| **Gweithred 1.1** | • Byddwn yn monitro ac yn cau gwahaniaethau bwlch cyflog rhwng y rhywiau posibl.<br>• Byddwn yn cyhoeddi Adroddiad Bwlch Cyflog Blynyddol y Gweithlu. | **Pobl a Threfniadaeth** | **Gwyrdd** |
| **Canlyniad:** Parhau i gau'r bwlch cyflog rhwng y rhywiau. | | | |
| Dangosodd adroddiad Bwlch Cyflog y Gweithlu 2021-22 fod bwlch cyflog cymedrig o -6.0% a bwlch cyflog canolrifol o -7.6% yn bodoli rhwng dynion a menywod. Mae hyn wedi cynyddu o 31 Mawrth 2021 lle'r oedd y bwlch cyflog cymedrig yn -5.3% a'r bwlch cyflog canolrifol oedd -3.9%.<br><br>Rydym yn hyderus bod dynion a menywod yn cael eu talu'n gyfartal am wneud swyddi cyfatebol ar draws y Cyngor. Y prif reswm dros ein bwlch cyflog rhwng y rhywiau ar draws y sefydliad yw anghydbwysedd rhwng cydweithwyr gwrywaidd a benywaidd ar draws y sefydliad. Ar hyn o bryd mae llai o fenywod mewn rolau uwch na dynion, yn ogystal â chyfran uwch o fenywod o'i gymharu â dynion ar raddfeydd is. Darperir mwy o fanylion yn adroddiad blynyddol Bwlch Cyflog y Gweithlu ynghyd â'r mesurau yr ydym yn eu cymryd i fynd i'r afael â'r bwlch cyflog.<br><br>Bydd adroddiad Bwlch Cyflog y Gweithlu ar gyfer 2022-23 yn cael ei gynhyrchu erbyn diwedd mis Hydref 2023 a bydd yn cael ei gyhoeddi ar wefan y Cyngor yn dilyn cymeradwyaeth drwy'r broses ddemocrataidd. | | | |
| **Gweithred 1.2** | • Byddwn yn parhau i gasglu data cydraddoldeb y gweithlu a'r Gymraeg gan staff newydd a data gwirfoddol gan staff presennol.<br>• Byddwn yn cyhoeddi Adroddiad Cydraddoldeb y Gweithlu blynyddol. | **Pobl a Threfniadaeth** | **Gwyrdd** |
| **Canlyniad:** Cynnydd yn nifer y staff sy'n datgelu data cydraddoldeb a sgiliau Cymraeg. | | | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Cesglir data Cydraddoldeb y Gweithlu a'r Gymraeg gan yr holl staff newydd sy'n ymuno â'r Cyngor ac atgoffir staff presennol yn flynyddol i ddiweddaru eu data cydraddoldeb drwy hunanwasanaeth Ceri. Mae diweddaru data Cymraeg hefyd wedi'i gynnwys yn y broses arfarnu flynyddol. Mae dros 92% o staff wedi datgelu data cydraddoldeb gwirfoddol. Cyflwynwyd Adroddiad Cydraddoldeb y Gweithlu 2021-22 i'r Cabinet ym mis Rhagfyr 2022.<br><br>Bydd Adroddiad Cydraddoldeb y Gweithlu ar gyfer 2022-23 yn cael ei gynhyrchu erbyn diwedd mis Hydref 2023 a'i gyhoeddi ar wefan y Cyngor yn dilyn cymeradwyaeth drwy'r broses ddemocrataidd. | | | |
| **Gweithred 1.3** | Byddwn yn gwella ymwybyddiaeth staff o faterion cydraddoldeb a Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus trwy hyfforddiant. | **Pobl a Threfniadaeth** | **Gwyrdd** |
| **Canlyniadau:**<br>• Cynnydd yn nifer y staff sy'n cwblhau'r e-ddysgu gorfodol ar Gydraddoldeb ac Amrywiaeth.<br>• Mwy o reolwyr yn cwblhau hyfforddiant Cydraddoldeb ac Amrywiaeth.<br>• Cynnydd yn nifer y staff sy'n cwblhau hyfforddiant ymwybyddiaeth LHDT. | | | |
| **E modiwlau dysgu**<br>• Cydraddoldeb ac Amrywiaeth: 1,969 o gyflawniadau (1,817 o staff mewnol a 152 allanol )<br>• Ymwybyddiaeth o'r Gymraeg: 1,225 o gyflawniadau (1,129 o staff mewnol a 96 allanol)<br>• Deall Awtistiaeth: 721 o gyflawniadau (577 mewnol a 144 allanol)<br>• Cyfathrebu Effeithiol Awtistiaeth: 106 o gyflawniadau (56 mewnol a 50 allanol)<br><br>**Hyfforddiant a gynigir i gynyddu ymwybyddiaeth o gydraddoldeb, amrywiaeth ac anabledd:**<br>• 7 x Sesiynau Ymwybyddiaeth LHDT: 44 o staff mewnol yn bresennol.<br>• 1 x Ymwybyddiaeth Trawsryweddol: 17 wedi mynychu (7 aelod o staff mewnol a 10 allanol)<br>• Mae Cydraddoldeb ac Amrywiaeth i reolwyr bellach wedi'i gynnwys ar ffurf newydd rhaglen Rheolwyr Ceredigion ac nid yw'n cael ei chyflwyno ar wahân.<br>• 1 x Troseddau Casineb: 6 aelod o staff yn mynychu (4 mewnol a 2 allanol)<br>• 1 x Troseddau Casineb Ymddygiad Gwrthgymdeithasol: mynychodd 5 aelod o staff (3 mewnol a 2 allanol)<br>• 6 x Sesiynau Atal / WRAP: Mynychodd 110 o staff (101 mewnol a 9 allanol) | | | |

- 1 x Deall proses Lloches a Ffoaduriaid: 17 aelod o staff wedi mynychu (12 mewnol a 5 allanol)
- 1 x Ymwybyddiaeth o fod yn Fyddar: 12 aelod o staff mewnol yn bresennol.
- 1 x Gweithdy Ymwybyddiaeth o fod yn Fyddar ac Iaith Arwyddion: 8 aelod o staff mewnol yn bresennol.
- 3 x Ymwybyddiaeth Epilepsi: 38 aelod o staff wedi mynychu (21 mewnol ac 17 allanol)
- 1 x Ymwybyddiaeth o Nam ar y Golwg: Mynychodd 10 aelod o staff mewnol.
- 2 x Cyflwyniad i glefyd Parkinson: mynychodd 36 aelod o staff (24 mewnol a 12 allanol)
- 2 x Trosolwg Clefyd Huntington: 13 o staff mewnol yn bresennol.
- 1 x Deddf Galluedd Meddyliol a Sesiwn Anaf i'r Ymennydd: mynychodd 24 o staff mewnol.

Roedd 10 aelod o staff y Cyngor hefyd yn bresennol mewn digwyddiadau rhanbarthol ar niwroymwahanu a'r Ddeddf Iechyd Meddwl ac Anaf Ymennydd Caffaeledig a'r Ddeddf Iechyd Meddwl.

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Gweithred 1.4** | Byddwn yn parhau i hyrwyddo a gweithredu'r Cynllun Hyderus o ran Anabledd, (sy'n croesawu ceisiadau gan bobl anabl ac yn ymrwymo i wneud addasiadau yn y gweithle). | **Pobl a Threfniadaeth** | **Ambr** |

**Canlyniad:** Mwy o benodiadau wedi eu cofnodi fel pobl sydd ag anabledd.

Mae'r Cynllun Hyderus o ran Anabledd yn rhan sefydledig o weithdrefnau recriwtio'r Cyngor ac mae'n cael ei gynnwys yn Rhaglen Hyfforddi orfodol Rheolwyr Ceredigion. Rydym yn gyflogwr Hyderus o ran Anabledd; mae hyn yn cael ei hyrwyddo ar ein gwefan Gyrfaoedd.

Dangosodd Cyfrifiad 2021 fod 20% o boblogaeth Ceredigion yn anabl. Dim ond 5% o gyfanswm y rhai a wnaeth gais am swyddi gyda'r Cyngor yn 2022-23 oedd yn nodi eu bod yn anabl. Derbyniwyd 196 o geisiadau gan unigolion a gofnododd fod ganddynt anabledd; penodwyd 23 (12%) ohonynt. Roedd y ffigwr ar gyfer 2021-22 yn uwch ar 16%. Penodwyd 17% o'r ymgeiswyr nad oeddent yn nodi eu bod yn anabl.

Yn ystadegol, mae ymgeisydd sy'n datgelu ei fod yn nodi ei fod yn anabl yn llai tebygol o gael ei benodi. Byddai'n ymddangos, o'i gymharu â data poblogaeth, efallai na fydd llawer o ymgeiswyr yn teimlo'n hyderus i ddatgelu eu hanabledd neu nad ydym yn denu ymgeiswyr anabl.

| | | | |
|---|---|---|---|
| Nid yw'r maes hwn wedi datblygu cymaint ag yr hoffem, a'n nod yw hyrwyddo'r Cynllun Hyderus o ran Anabledd ymhellach trwy hyfforddiant ychwanegol i reolwyr a thrwy'r wefan recriwtio a'r sianel cyfryngau cymdeithasol. Mae angen gweithredu cadarnhaol hefyd i annog mwy o geisiadau gan ymgeiswyr anabl ac i hyrwyddo'r Cynllun Hyderus o ran Anabledd. | | | |
| **Gweithred 1.5** | Byddwn yn cefnogi gweithwyr sy'n feichiog neu sydd wedi rhoi genedigaeth yn ddiweddar trwy fabwysiadu'r chwe maes gweithredu o dan yr adroddiad '*Gwahaniaethu ar sail Beichiogrwydd a Mamolaeth yn y Gweithle: Argymhellion ar gyfer Newid*'. | **Pobl a Threfniadaeth** | **Glas** (cyflawn) |
| **Canlyniad:** Mae'r 6 maes gweithredu wedi eu mabwysiadu | | | |

Dyma'r 6 maes gweithredu a fabwysiadwyd, a'n hymateb i'r argymhellion. Mae monitro'n digwydd drwy Adroddiad Cydraddoldeb Blynyddol y Gweithlu.

**Arweinyddiaeth ar gyfer newid: Fel bod cyflogwyr yn denu'r dalent orau, creu'r amodau i'w staff berfformio'n dda, ac osgoi colli sgiliau a phrofiad a all ddeillio o gamsyniadau ac arfer gwael mewn perthynas â gweithwyr beichiog a mamau newydd.** Mae Dysgu a Datblygu yn sicrhau bod rheolwyr yn cael eu hyfforddi i sicrhau nad ydynt yn wahaniaethol ac mae'r Tîm Adnoddau Dynol yn darparu cyngor ac arweiniad i reolwyr ar bob cam o gylch bywyd y gweithwyr. Anogir rheolwyr i ddarparu ar gyfer ceisiadau gweithio hyblyg lle bynnag y bo hynny'n bosibl, gan gynnwys ceisiadau rhan-amser ar gyfer gweithwyr sy'n gofyn am hyn wrth ddychwelyd ar ôl absenoldeb mamolaeth. Mae cadw'r dalent orau yn ein gweithlu yn bwysig i ni.

**Gwella ymarfer cyflogwyr: Hyrwyddo gweithleoedd sy'n gyfeillgar i deuluoedd, rheoli effeithiol a chyfathrebu agored.** Mae'r polisi gweithio hybrid dros dro wedi dod â hyd yn oed mwy o hyblygrwydd i nifer fawr o rolau swyddi. Ar hyn o bryd mae'r polisi cydbwysedd bywyd gwaith yn cael ei ddiwygio a'i ddadgyfuno i gyfres o bolisïau newydd sy'n addas i deuluoedd.

**Gwella mynediad at wybodaeth a chyngor: fel bod menywod a chyflogwyr yn deall eu hawliau a'u rhwymedigaethau.** Mae llawer o wybodaeth ar CeriNet a'r porth gweithwyr ac yn ogystal â hyn rydym yn gweithio mewn partneriaeth ag undebau llafur cydnabyddedig drwy gydol gwaith achos ac ymgynghoriadau.

**Gwella rheolaeth iechyd a diogelwch yn y gweithle: fel bod cyflogwyr yn rheoli risgiau'n effeithiol ac nad yw menywod yn cael eu gorfodi i ddewis rhwng eu swydd a'u hiechyd neu iechyd eu plentyn heb ei eni.** Mae'r Tîm Iechyd a Diogelwch yn cynghori rheolwyr a gweithwyr ar asesiadau risg beichiogrwydd sy'n cael eu hadolygu'n rheolaidd yn ystod beichiogrwydd.

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Gwella mynediad at gyfiawnder: Trwy gael gwared ar rwystrau i fenywod godi cwynion.** Mae'r Cyngor eisoes yn gwneud trefniadau cadarn i weithwyr godi pryderon e.e. cwyn, urddas yn y gwaith, chwythu'r chwiban. | | | |
| **Gweithred 1.6** | Byddwn yn cynnig, lle y bo'n briodol, trefniadau gweithio'n hyblyg a rhan-amser i gefnogi rhieni a gofalwyr. Byddwn yn diwygio ein polisïau ar weithio'n hyblyg a chydbwysedd rhwng bywyd a gwaith. | **Pobl a Threfniadaeth** | **Gwyrdd** |
| **Canlyniad:** Mae polisïau gweithio'n hyblyg a gweithio ystwyth diwygiedig ar waith. | | | |
| Bu cynnydd yn nifer y bobl sy'n manteisio ar basbortau Gofalwyr sy'n arwain at ofalwyr di-dâl yn cael mynediad at hyd at 5 diwrnod ychwanegol o absenoldeb â thâl. Mae'r polisi gweithio Hybrid Dros Dro wedi caniatáu i'r rhan fwyaf o staff corfforaethol weithio mewn ffordd fwy hyblyg. Dim ond 52.8% o'n staff sy'n llawn amser.<br><br>Mae gwaith yn mynd rhagddo i adolygu polisïau gweithio'n hyblyg a byddwn yn cynnal adolygiad yr hydref hwn o'n polisi gweithio hybrid dros dro. Mae'r Cyngor yn rhoi hyd at 5 diwrnod ychwanegol o absenoldeb â thâl i ofalwyr di-dâl sydd â phasbort gofalwyr ac mae Polisi Gofalwyr mewn Cyflogaeth y Cyngor yn darparu cymorth ychwanegol i'r gweithwyr hyn i gadw eu talent yn ein gweithlu.<br><br>• Mae 47.2% o'n staff yn rhan-amser.<br>• Mae 38.5% o'n gweithwyr yn fenywod rhan amser.<br>• Mae 8.8% o'n gweithwyr yn ddynion rhan amser.<br>Mae mwy o fenywod yn cael eu cyflogi'n llawn amser (614) na dynion (533).<br><br>Mae rheolwyr llinell yn rhagweithiol iawn wrth ddarparu ar gyfer llawer o geisiadau gweithio hyblyg; mae'n bwysig i ni gadw talent yn ein gweithlu, ac rydym yn gweithio'n galed i fod yn hyblyg o ran sut mae ein gwaith yn cael ei wneud. Bydd dadgyfuno ein polisi Cydbwysedd Rhwng Bywyd a Gwaith yn cael ei gwblhau yn ystod 2023/24. | | | |
| **Gweithred 1.7** | Byddwn yn gweithio tuag at leihau gwahaniaethu rhwng y rhywiau a diffyg cynrychiolaeth ar gyfer lleiafrifoedd ethnig a phobl anabl mewn prentisiaethau, gan gynnwys gweithio gyda'n contractwyr drwy gynnwys Buddion Cymunedol fel elfen graidd ym mhob contract caffael perthnasol y Cyngor. | **Porth Cymorth Cynnar** | **Ambr** |

| |
|---|
| **Canlyniad:** Llai o wahaniaethu rhwng y rhywiau mewn prentisiaethau. Mwy o brentisiaid Du, Asiaidd, ethnig lleiafrifol ac anabl. |
| Mae Hyfforddiant Ceredigion Training (HCT) yn hyrwyddo prentisiaethau mewn digwyddiadau Gyrfaoedd ar draws y sir. Mae 90% o brentisiaid yn Ddynion, 9% yn Fenywod ac mae 1% yn nodi eu bod yn 'arall'. Mae 12% wedi datgelu bod ganddyn nhw rai anableddau a dywedodd 0% eu bod o gefndir Du neu ethnig lleiafrifol.<br><br>Crëwyd taenlen adrodd safonedig ar gyfer contractau cyfalaf mawr yn Fframwaith Contractwyr Rhanbarthol De-orllewin Cymru sy'n gofyn am unrhyw hyfforddiant a recriwtio newydd y gellir eu cyflawni i gofnodi yn ôl rhyw, anabledd ac ethnigrwydd. Mae hyn yn dilyn yr un dull â'r un a ddefnyddir ym Mhartneriaeth Adeiladu Gogledd Cymru. Ar hyn o bryd mae gwybodaeth yn cael ei chasglu ar gyfer contractau yn Ysgol Gynradd Aberteifi ac Ysgol Uwchradd Aberteifi. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Gweithred 1.8** | Byddwn yn parhau i weithredu ein Polisi Caethwasiaeth Fodern. Mae hyn yn cynnwys ein hymrwymiad gyda'n cyflenwyr a'n contractwyr i ddilyn Cod Ymarfer Llywodraeth Cymru ar Gyflogaeth Foesegol a Thryloywder yn y Gadwyn Gyflenwi, er enghraifft gwarchod rhag contractau cyflogaeth ansicr a sicrhau hawliau gweithwyr. | **Pobl a Threfniadaeth** | **Gwyrdd** |

**Canlyniadau:**

- Mwy o sesiynau Caethwasiaeth Fodern wedi cael eu darparu, nifer cynyddol o staff sy'n mynychu
- Mwy o sesiynau Masnachu mewn Pobl a Phlant.

Roedd 7 x sesiwn hyfforddiant am Gaethwasiaeth Fodern a Masnachu Pobl: 50 staff yn bresennol (45 mewnol a 5 allanol)

**Amcan 2: Meithrin Perthnasoedd Da a Mynd i'r Afael â Rhagfarn.**

**Meithrin perthnasoedd da rhwng y rhai sy'n rhannu nodwedd warchodedig a'r rhai nad ydynt drwy adeiladu cydlyniant cymunedol a mynd i'r afael â rhagfarn. Dylai pawb allu byw heb ofni trais a cham-drin a chael eu trin â pharch.**

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Gweithred 2.1** | Byddwn yn gweithio gyda'r Cydlynydd Cydlyniant Cymunedol Rhanbarthol i gefnogi Ceredigion o gymunedau cydlynol. | **Tîm Cydlyniant Cymunedol** | **Gwyrdd** |

**Canlyniad:** Datblygir fframwaith cydlyniant cymunedol a chyflawnir canlyniadau.

| | | | |
|---|---|---|---|
| Mae ein tîm Cydlyniant Cymunedol yn un o 8 tîm rhanbarthol ledled Cymru sy'n cael eu hariannu gan Lywodraeth Cymru. Y nod yw darparu dull cyson o gydweithio ar draws Cymru. Mae'r tîm yn gweithio i gynllun gweithredu blynyddol ac wedi cwblhau camau gweithredu a sefydlwyd yn foddhaol ar gyfer 2022-23, y mae llawer ohonynt wedi'u cynnwys yn yr adroddiad hwn. | | | |
| **Gweithred 2.2** | Byddwn yn parhau i godi ymwybyddiaeth o droseddau casineb ac i gyfeirio dioddefwyr posibl at wasanaethau adrodd a chymorth. | **Polisi, Perfformiad a Diogelu'r Cyhoedd/ Cydlyniant Cymunedol** | **Gwyrdd** |
| **Canlyniadau:**<br>• Mwy o sesiynau ymwybyddiaeth o droseddau casineb wedi'u cyflwyno.<br>• Roedd mwy o staff yn bresennol. | | | |
| Cytunodd y Cabinet i lofnodi'r Siarter Troseddau Casineb Cymorth i Ddioddefwyr ym mis Tachwedd 2022. Mae'r siarter yn nodi hawliau dioddefwyr, a'r ymrwymiadau y mae sefydliadau'n eu gwneud i fynd i'r afael â throseddau casineb, darparu cefnogaeth a gwybodaeth i ddioddefwyr, a chodi ymwybyddiaeth o droseddau casineb ymhlith staff a chymunedau. Byddwn yn gweithio gyda Chymorth i Ddioddefwyr yn 2023-24 i gyflawni camau gweithredu a fydd yn ein galluogi i ddod yn 'bartner gweithredol'.<br><br>Mynychodd 52 o staff mewnol a 9 aelod o staff allanol sesiynau hyfforddi ar Gaethwasiaeth Fodern a Masnachu Pobl, Troseddau Casineb a hyfforddiant Troseddau Casineb Ymddygiad Gwrthgymdeithasol. Cyfarfu Cymorth i Ddioddefwyr hefyd â'n tîm Gwasanaeth Ieuenctid i drafod codi ymwybyddiaeth am Droseddau Casineb.<br><br>Gweithiodd y tîm Cydlyniant Cymunedol rhanbarthol gyda Chymorth i Ddioddefwyr i gydlynu diwrnod hyfforddi LHDTC+ rhanbarthol wedi'i anelu at weithwyr proffesiynol a gweminar ledled Cymru ar y pwnc '*Codi Ymwybyddiaeth a Dealltwriaeth o Eithafiaeth a Gwrywdod Gwenwynig*' ar gyfer gweithwyr proffesiynol sy'n gweithio gyda phobl ifanc. Cafodd Wythnos Ymwybyddiaeth o Droseddau Casineb ei hyrwyddo gyda sesiwn hyfforddi yn edrych ar effeithiau casineb ar-lein ar unigolion a chymunedau a gyda digwyddiad ymgysylltu yng ngêm Uwch Gynghrair Cymru - Clwb Pêl-droed Tref Aberystwyth yn erbyn Sir Hwlffordd. | | | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Gweithred 2.3** | Byddwn yn parhau i gefnogi gwaith i gynyddu adroddiadau o gam-drin domestig i Goleudy, (Cymorth i Ddioddefwyr). | **Porth Cynnal** | **Gwyrdd** |

**Canlyniadau:**

- Nifer cynyddol o staff sy'n cwblhau e-ddysgu Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol
- Mwy o sesiynau Holi a Gweithredu wedi'u cwblhau.

Cwblhaodd 1,696 o staff (1,589 mewnol a 107 allanol) e-ddysgu Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol. Mynychodd 40 o staff mewnol Sesiynau Hyfforddi Holi a Gweithredu.

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Gweithred 2.4** | Byddwn yn monitro ac yn ymateb i densiynau cymunedol sy'n ymwneud â phroses Brexit. | **Polisi, Perfformiad a Diogelu'r Cyhoedd/ Cydlyniant Cymunedol** | **Gwyrdd** |

**Canlyniad:** Mwy o ymyriadau a dad-ddwysáu.

Mae materion Brexit (Masnach) wedi lleihau ers llofnodi'r Cytundeb Masnach a Chydweithio. Ni fu unrhyw heriau na materion sylweddol yn ystod y 12 mis diwethaf ac mae Brexit wedi'i dynnu o'r gofrestr risg gorfforaethol. Fodd bynnag, cynhelir brîff gwylio yn enwedig o ran yr hawl i weithio, mewnfudo a mynediad at fudd-daliadau a gwasanaethau.

Rydym yn monitro tensiynau cymunedol drwy gynnal cyfarfodydd monitro tensiwn gyda Heddlu Dyfed Powys, Prifysgol Aberystwyth, Gwasanaeth Tân Canolbarth a Gorllewin Cymru, Cymorth i Ddioddefwyr, Cyngor Hil Cymru, Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant ac adrannau amrywiol o fewn yr Awdurdod Lleol, gan gynnwys Diogelwch Cymunedol, Tai a Chamddefnyddio Sylweddau. Mae amrywiaeth o densiynau wedi'u nodi a'u lliniaru dros y flwyddyn ddiwethaf gan gynnwys mudiadau protest, dosbarthiad taflennu gan grŵp asgell dde eithafol a llety dros dro i bobl sy'n Sipsiwn, Roma neu Deithwyr.

Rydym hefyd yn sganio cyfryngau cymdeithasol / ffynonellau ar-lein i fonitro materion a thensiynau. Mae materion allweddol yn cael eu codi a'u cofnodi mewn cyfarfodydd Monitro Tensiwn. Mae cydlyniant cymunedol a monitro tensiwn yn eitemau agenda rheolaidd yng nghyfarfodydd y Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol, CONTEST (Gwrthderfysgaeth), Troseddau Cyfundrefnol Difrifol a Thrais (SVOC),

<table>
<tr><td colspan="4">grŵp Ailsefydlu Ffoaduriaid Ceredigion a Grŵp Llywio Sipsiwn a Theithwyr. Rydym hefyd yn mynychu Grŵp Diddordeb Arbennig cenedlaethol ar Wrthweithio Eithafiaeth (SIGCE) i drafod gweithgarwch grwpiau asgell dde yn ein rhanbarth a gweithgarwch cenedlaethol wedi’i dargedu at ffoaduriaid a grwpiau mudol.</td></tr>
<tr><td>Gweithred 2.5</td><td>Byddwn yn cyfeirio dinasyddion yr Undeb Ewropeaidd sy'n byw yng Ngheredigion at Gynllun Preswylio'n Sefydlog i Ddinasyddion yr UE y Swyddfa Gartref ac yn darparu'r lefel briodol o gymorth gan yr awdurdod lleol.</td><td>Cydlyniant Cymunedol a Chyswllt Cwsmeriaid</td><td>Glas</td></tr>
<tr><td colspan="4">Canlyniad: Mwy o ddinasyddion yr UE sy’n byw yng Ngheredigion yn gwneud cais i’r cynllun.</td></tr>
<tr><td colspan="4">Mae'r cynllun bellach wedi cau.</td></tr>
<tr><td>Gweithred 2.6</td><td>Byddwn yn parhau i weithredu ymgyrch flynyddol yn y cyfryngau ac ymwybyddiaeth y cyhoedd. Gallai enghreifftiau gynnwys Diwrnod Rhyngwladol y Menywod, Wythnos Ymwybyddiaeth o Droseddau Casineb a Diwrnod Cofio'r Holocost.</td><td>Gwasanaethau Democrataidd / Cydlyniant Cymunedol</td><td>Gwyrdd</td></tr>
<tr><td colspan="4">Canlyniad: Mwy o ymgyrchoedd wedi eu cynnal.</td></tr>
<tr><td colspan="4">Mae'r tîm Cydlyniant Cymunedol Rhanbarthol a thîm Cyfathrebu Allanol y Cyngor yn cefnogi calendr blynyddol o ddiwrnodau cenedlaethol ac ymgyrchoedd i hyrwyddo ymwybyddiaeth, dathlu amrywiaeth, a choffáu rhai digwyddiadau hanesyddol. Yn ystod 2022/23 bu'r ddau dîm yn hyrwyddo ac yn cefnogi nifer o ymgyrchoedd gan gynnwys:<br>1. Mae Casineb yn Brifo Cymru - ymgyrch Llywodraeth Cymru.<br>2. Diwrnod Hawliau Dynol<br>3. Diwrnod Hawliau’r Gymraeg<br>4. Diwrnod Hawliau Gofalwyr<br>5. Diwrnod y Rhuban Gwyn - ymgyrch ryngwladol yn galw ar ddynion i sefyll yn erbyn trais yn erbyn menywod.<br>6. Wythnos Diogelu Genedlaethol<br>7. Diwrnod Pobl Hyn/Older Persons’ Day<br>8. Diwali<br>9. Wythnos/diwrnod y lluoedd arfog</td></tr>
</table>

10. Wythnos Ymwybyddiaeth o Droseddau Casineb
11. Mis Pride – cyfryngau cymdeithasol
12. Mis Hanes Pobl Dduon – cyfryngau cymdeithasol
13. Diwrnod Gwelededd Trawsryweddol – cyfryngau cymdeithasol
14. Wythnos Rhyng-ffydd – cyfryngau cymdeithasol
15. Diwrnod Cofio'r Holocost – negeseuon ar gyfryngau cymdeithasol a goleuo adeiladau cyhoeddus yn borffor
16. Mis Hanes LHDT - negeseuon ar gyfryngau cymdeithasol
17. Wythnos Ffoaduriaid – negeseuon ar gyfryngau cymdeithasol
18. Mis Hanes Teithwyr Sipsiwn – negeseuon ar gyfryngau cymdeithasol (rhanbarthol).

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Amcan 3: Ymgysylltu a Chyfranogiad**<br>**Sicrhau ein bod yn ymgysylltu'n effeithiol â phobl sy'n rhannu nodweddion gwarchodedig. Galluogi pobl i ddylanwadu ar benderfyniadau ac i fanteisio ar y cyfle i gymryd rhan mewn bywyd gwleidyddol a bywyd bob dydd.** | | | |
| **Gweithred 3.1** | Byddwn yn ymgysylltu â phobl Ceredigion, gan gynnwys pobl â nodweddion gwarchodedig ac yn cysylltu â grwpiau lleol, rhanbarthol a chenedlaethol. | **Polisi, Performance a Diogelu'r Cyhoedd (a phob maes gwasanaeth i'w weithredu)** | **Ambr** |
| **Canlyniad:** Mae'r ymgysylltu a wneir yn ystyrlon. Mae pobl yn cymryd rhan ac yn gallu dylanwadu ar benderfyniadau ac mae Adroddiad Blynyddol Ymgysylltu yn adlewyrchu hyn. | | | |
| Mae llawer yn cael ei wneud i ymgysylltu â thrigolion a rhanddeiliaid, ond mae'r dull corfforaethol o weithredu yn anghyson. Mae enghreifftiau da o ymgysylltu parhaus wedi'u rhestru yn ein Hadroddiad Blynyddol Ymgysylltu a Chyfranogiad 2022-23 ac rydym yn hwyluso amrywiaeth o ddefnyddwyr gwasanaeth ar gyfer grwpiau a rhanddeiliaid a chyfranddalwyr. Cynhaliwyd saith ymarfer ymgysylltu wedi'u targedu, pum ymarfer ymgynghori a phedwar ymarfer 'hysbysu' (lle mae gan y Cyngor ddyletswydd i hysbysu'r cyhoedd a darparu ffordd i bartïon sydd â diddordeb i ymateb) yn ystod 2022-23. | | | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Mae'r gyfradd ymateb ar gyfer ymgynghoriadau cyhoeddus y DU yn 0.7% ar gyfartaledd ac mae nifer yr ymatebion i ymgyrchoedd y Cyngor yn gyffredinol yn is. Mae angen i ni barhau i ddatblygu dulliau ymgysylltu arloesol wrth gydnabod bod yr adnodd ar gyfer y gwaith hwn yn gyfyngedig. | | | |
| **Gweithred 3.2** | Byddwn yn adolygu ac yn gweithredu ein Polisi Ymgysylltu. | **Polisi, Perfformiad a Diogelu'r Cyhoedd** | **Glas (cyflawn)** |
| **Canlyniad:** Mae’r Polisi Ymgysylltu wedi'i gyhoeddi a'i weithredu. Cynnydd yn cael ei gofnodi mewn Adroddiad Blynyddol Ymgysylltu. | | | |
| Mae'r polisi Ymgysylltu a Chyfranogiad wedi'i ddiwygio. Fe'i cymeradwywyd gan y Cabinet ym mis Hydref 2022 ac fe'i cyhoeddwyd ar ein gwefan. Bydd y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Adnoddau Corfforaethol yn craffu ar adroddiadau monitro cyn iddynt gael eu cyflwyno i'r Cabinet. | | | |
| **Gweithred 3.3** | Byddwn yn gweithredu ein Strategaeth Cyfranogiad Plant a Phobl Ifanc ac yn ystyried Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn, (CCUHP) wrth wneud penderfyniadau. | **Porth Cymorth Cynnar** | **Gwyrdd** |
| **Canlyniadau:**<br>• Targedau penodol wedi eu cyhoeddi yn Strategaeth Cyfranogiad Plant a Phobl Ifanc 2018-21. Cynnydd yn cael ei gofnodi mewn Adroddiad Blynyddol Cyfranogiad CYP.<br>• Rhaglen e-ddysgu ar CCUHP wedi cael ei datblygu, rhagwelir y bydd yn cael ei lansio i staff 2020 | | | |
| Mae Strategaeth Cyfranogiad Plant a Phobl Ifanc Gwasanaeth Ieuenctid Ceredigion 2018-2021 bellach wedi dod i ben. Mae ein dull o sicrhau bod plant a phobl ifanc yn cymryd rhan yn benderfyniadau bellach wedi'i gynnwys ym Mholisi Ymgysylltu a Chyfranogiad newydd y Cyngor. Mae hyn yn golygu bod cyfranogiad plant a phobl ifanc yn rhan o'n dull ymgysylltu a chyfranogi gydol oes.<br><br>Mae Cyngor Ieuenctid Ceredigion yn cynnwys 25 o bobl ifanc sy'n cynrychioli pob Ysgol Uwchradd Ceredigion, Coleg Ceredigion, Llysgenhadon Cymunedol Aberystwyth, Clybiau Ffermwyr Ifanc Ceredigion, Fforwm yr Urdd a Gwasanaeth Cymorth ac Atal, Porth Cymorth Cynnar. Cynhaliwyd 4 cyfarfod llawn a digwyddiad diwedd y flwyddyn, 'Pawb a'i Farn Ceredigion 2022' - cyfle i aelodau'r cyngor ieuenctid drafod materion allweddol gyda Ben Lake AS, Prif Swyddog Gweithredol Cyngor Sir Ceredigion, ein Prif Swyddog Addysg a'n | | | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Dirprwy Arweinydd ac Aelod Cabinet dros Gydol Oes a Lles, y Cynghorydd Alun Williams. Cafodd y digwyddiad ei gadeirio gan Lloyd Warburton, aelod o Senedd Ieuenctid Cymru dros Geredigion. Mae cofnodion pob cyfarfod y Cyngor Ieuenctid yn cael eu cyflwyno i Bwyllgor Craffu ac i Gabinet.<br><br>Mynychodd bobl ifanc y Fforwm Comisiynydd Heddlu a Throsedd Dyfed Powys i drafod lefelau plismona a throseddu yn ardal Heddlu Dyfed Powys. Yn ogystal, cyflwynwyd tri grŵp ffocws gyda grŵp o bobl ifanc ar iechyd meddwl a dioddefwyr trosedd ifanc, gweithgareddau atal camddefnyddio sylweddau a chymorth ar gyfer pobl ifanc sy'n cyflawni troseddau lefel isel.<br><br>Mae fforwm GUS ('Give Us Support') yn sicrhau bod lleisiau pobl ifanc na glywir yn aml yn cael eu clywed. Cyfarfu 12 o bobl ifanc yn fisol yn ystod 2022-23 a rhoddwyd eu barn ar 10 ymgynghoriad lleol a chenedlaethol.<br><br>Cwblhaodd 114 o bobl (94 o staff mewnol ac 20 allanol) modiwl e-ddysgu Ymwybyddiaeth CCUHP sydd ar gael i holl staff Cyngor Sir Ceredigion. Cafodd pecyn gweithdy Pobl Ifanc CCUHP ei ddiweddaru a'i ailgynllunio. Pwrpas y pecyn yw galluogi staff i gyflwyno sesiwn awr o hyd yn yr ystafell ddosbarth neu mewn man cymunedol o amgylch Hawliau Plant a Chyfranogiad. | | | |
| **Gweithred 3.4** | Byddwn yn cefnogi'r rhaglenni a chynlluniau i gynyddu cynrychiolaeth mewn gwleidyddiaeth a gwneud penderfyniadau lleol, yn enwedig i fenywod, pobl anabl neu bobl o grwpiau ethnig lleiafrifol. | **Gwasanaethau Democrataidd** | **Gwyrdd** |
| **Canlyniad:** Mwy o fenywod, pobl anabl a phobl bobl o grwpiau ethnig lleiafrifol yn cael eu cynrychioli. | | | |
| Cynyddodd canran y Cynghorwyr Sir benywaidd o 12% i 24% yn dilyn yr etholiad ym mis Mai ac isetholiad Llanbedr Pont Steffan ym mis Hydref, ac mae canran yr Aelodau benywaidd newydd yn sylweddol uwch sy'n dangos camau cadarnhaol tuag at gyflawni amrywiaeth mewn democratiaeth. Nodwyd hefyd bod nifer y Cynghorwyr benywaidd a etholwyd yn cynrychioli nifer yr ymgeiswyr a safodd etholiad.<br><br>Mae'r ffigurau ar gyfer Plaid Cymru a'r Democratiaid Rhyddfrydol yn gadarnhaol ond mae cryn dipyn o waith i'w wneud o hyd. Nododd aelodau annibynnol nad yw'r ffigyrau'n cynrychioli nifer y menywod y gofynnwyd iddynt sefyll fel ymgeiswyr, a bod angen gwneud mwy o waith i'w hannog i sefyll etholiad.<br><br>Nid yw ffigurau sy'n dangos cynrychiolaeth pobl anabl ac aelodau o gefndiroedd ethnig lleiafrifoedd ar gael. | | | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Gweithred 3.5** | Byddwn yn cefnogi ymgysylltu â phobl ifanc 16 ac 17 oed os yw'r oedran pleidleisio yn cael ei ostwng yng Nghymru. | **Gwasanaethau Democrataidd / Porth Cymorth Cynnar** | **Gwyrdd** |
| **Canlyniad:** Dull wedi'i dargedu ar gyfer hyrwyddo a chodi ymwybyddiaeth gan ddefnyddio Cyngor Ieuenctid Ceredigion, 6ed Dosbarth Ysgolion Uwchradd, sefydliadau Addysg Bellach, Gwasanaethau Cymorth Ieuenctid, Fforymau Plant a Phobl Ifanc a chyfryngau cymdeithasol y Gwasanaeth Ieuenctid. | | | |
| Mae gwybodaeth am 'Bleidleisio yn 16 oed' a sut i gofrestru i bleidleisio ar gyfer etholiadau lleol a Senedd y dyfodol wedi cael eu rhannu ar Sianel Timau Cyngor Ieuenctid Ceredigion. Mae aelodau'r Cyngor Ieuenctid yn gyfrifol am rannu'r wybodaeth gyda'u cyfoedion.<br><br>Rhannodd Gwasanaeth Ieuenctid Ceredigion wybodaeth ar eu cyfryngau cymdeithasol i godi ymwybyddiaeth i ymgyrch 'Wythnos croeso i'ch pleidlais' y comisiwn etholiadol a gynhaliwyd rhwng 30 Ionawr a 5 Chwefror 2023. Helpodd yr ymgyrch i godi ymwybyddiaeth i gofrestru i bleidleisio. Rhannwyd gwybodaeth am 'Wythnos Croeso i'ch pleidlais' hefyd gyda Chyngor Ieuenctid Ceredigion, partneriaid y trydydd sector a sefydliadau addysg bellach yng Ngheredigion. | | | |
| **Gweithred 3.6** | Byddwn yn parhau i gefnogi Fforwm Anabledd Ceredigion. | **Polisi, Perfformiad a Diogelu'r Cyhoedd** | **Ambr** |
| **Canlyniad:** 4 cyfarfod agored y flwyddyn a 4 cyfarfod gyda CSC. Mae llais pobl anabl yn cael ei glywed ac yn ddylanwadol. | | | |
| Cynhaliwyd cyfarfodydd yn ystod y flwyddyn, ond mae'r presenoldeb yn parhau'n isel. Mae llais pobl anabl sy'n mynychu cyfarfodydd i'w glywed ond mae gwaith i'w wneud i sicrhau bod pobl anabl yn cael eu cynrychioli'n llawn yn y Fforwm Anabledd. | | | |
| **Gweithred 3.7** | Byddwn yn cynnal y dudalen cydraddoldeb ar wefan y cyngor i gyfeirio at wybodaeth berthnasol ac i gyhoeddi ein cynllun a'n hadroddiadau Cydraddoldeb Strategol. | **Polisi, Perfformiad a Diogelu'r Cyhoedd** | **Gwyrdd** |
| **Canlyniad:** Tudalen Cydraddoldeb gyfoes ar wefan CCC. | | | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Mae'r dudalen [Cydraddoldeb ac Amrywiaeth] ar wefan Cyngor Sir Ceredigion yn gyfredol ac mae'n cynnwys dolenni i Gynllun Cydraddoldeb Strategol 2020-24 ac Adroddiad Monitro Blynyddol 2021-22. | | | |
| **Gweithred 3.8** | Byddwn yn monitro cynnydd y Cynllun Cydraddoldeb Strategol ac yn cynhyrchu a chyhoeddi adroddiad monitro blynyddol. | **Polisi, Perfformiad a Diogelu'r Cyhoedd** | **Gwyrdd** |
| **Canlyniad:** Nifer y Camau Gweithredu Glas (wedi ei gwblhau) a Gwyrdd (yn dangos cynnydd da) yn erbyn cyfanswm y camau gweithredu. | | | |
| Mae 54 o gamau gweithredu yn y Cynllun Cydraddoldeb Strategol. 8 yn Glas (cyflawn), 0 yn Goch (heb ddechrau eto), 10 yn Ambr (y tu ôl i'r targed) a 36 yn Wyrdd (ar y targed). Caiff cynnydd ei fonitro gan y Gweithgor Cydraddoldeb Strategol a chyhoeddir adroddiad blynyddol ar ein gwefan ar ôl i'n Pwyllgor Cydlynu Trosolwg a Chraffu graffu arno ac mae'r Cabinet wedi cymeradwyo'r cynnwys. | | | |
| **Gweithred 3.9** | Byddwn yn adolygu'r broses Asesiad Effaith Integredig. | **Polisi, Perfformiad a Diogelu'r Cyhoedd** | **Gwyrdd** |
| **Canlyniad:** Proses AEI ddiwygiedig yn cael ei gweithredu | | | |
| Mae'r offeryn Asesu Effaith Integredig diwygiedig ar gam 'drafft'. Mae'n cynnwys y wybodaeth ddiweddaraf am boblogaeth Ceredigion *(Cyfrifiad 2021)* ac mae'n ei gwneud yn ofynnol i swyddogion ystyried ymgysylltu â rhanddeiliaid fel rhan o'r asesiad. Bydd yr offeryn drafft yn cael ei gyflwyno i'r Cabinet i'w gymeradwyo ym mis Hydref 2023 a'i weithredu ar ôl hyn. | | | |
| **Gweithred 3.10** | Byddwn yn monitro ac yn cynghori ar Asesiadau Effaith Integredig (AEI). | **Polisi, Perfformiad a Diogelu'r Cyhoedd** | **Ambr** |
| **Canlyniadau:** Nifer yr AEI sy'n cyrraedd y safon ofynnol a gyflwynir gyda Phapurau'r Cabinet / nifer yr AEI sy'n ofynnol x 100 = A% | | | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Cyflwynwyd 12 x Asesiad Effaith Integredig i'r safon ofynnol gyda Phapurau'r Cabinet / roedd angen 21 x AEI = 57% o'r safon ofynnol. Yn 2020-21, roedd 41% o'r safon ofynnol ac yn 2021-22, roedd 48% o'r safon ofynnol. Mae hyn yn dangos gwelliant cyson ar y blynyddoedd blaenorol ond mae mwy o waith i'w wneud i gyflawni 100%. | | | |
| **Gweithred 3.11** | Darparu cymorth ac arweiniad i holl wasanaethau'r Cyngor i sicrhau eu bod yn gweithredu Safonau'r Gymraeg, a chynyddu argaeledd a safon y gwasanaethau cyfrwng Cymraeg. | **Gwasanaethau Democrataidd** | **Gwyrdd** |
| **Canlyniad:** Mae gwasanaethau cyfrwng Cymraeg ar gael yn weithredol i siaradwyr Cymraeg | | | |
| Bydd Adroddiad Cydymffurfiaeth Flynyddol Safonau'r Gymraeg 2022-23 yn cael ei gyflwyno i'r Cabinet ym mis Mehefin 2023. Datblygwyd fframwaith hunan-fonitro ac mae pob Prif Swyddog Corfforaethol wedi sgorio eu perfformiad gwasanaeth yn erbyn hwn. Mae Swyddog Polisi'r Gymraeg y Cyngor yn gweithio'n agos gyda rheolwyr gwasanaethau i'w helpu i osod cynlluniau i wella ansawdd ac argaeledd gwasanaethau Cymraeg.<br><br>Yn ystod 2022-23 fe wnaethom adolygu Siarter Cwsmeriaid y Cyngor, sy'n disgrifio lefel y gall defnyddwyr gwasanaethau ei disgwyl wrth gysylltu â'r Cyngor; mae hyn yn cynnwys darparu ein gwasanaethau yn Gymraeg neu Saesneg, yn unol â'r iaith a ffefrir gan y defnyddiwr. Rydym wedi cyhoeddi'r Polisi Iaith Gymraeg ar Wobrwyo Grantiau, er mwyn sicrhau bod prosesau dyfarnu grantiau yn ystyried unrhyw effaith ar y Gymraeg.<br><br>Rydym wedi adolygu proses gwynion gorfforaethol y Cyngor i hwyluso cyflwyno pryderon yn y Gymraeg. Ni chawsom unrhyw gwynion am ein gwasanaethau Cymraeg nac am weithredu Safonau'r Gymraeg eleni. Datblygwyd Adroddiad Adolygiad Strategaeth Iaith pum mlynedd y Cyngor a chyhoeddwyd adroddiad pwnc ar oblygiadau data'r cyfrifiad 2021 ar y Gymraeg yng Ngheredigion; hyn er mwyn paratoi ar gyfer datblygu a chyhoeddi Strategaeth Iaith newydd ar gyfer y cyfnod 5 mlynedd nesaf. | | | |
| **Gweithred 3.12** | Byddwn yn mabwysiadu egwyddorion Siarter Anabledd Dysgu y 'Dream Team' | **Swyddogion Arweiniol -**<br><br>**Yr holl wasanaethau** | **Ambr** |

| **Canlyniad:** Gwell canlyniadau i bobl ag anableddau dysgu. |
|---|
| Mae'r Cyngor wedi llofnodi'r Siarter – ldcharter.com. Ysgrifennwyd hyn gan bobl ag anableddau dysgu ac mae'n gofyn i ni ystyried eu bywyd a'u hawliau, y ffordd rydym yn cyfathrebu, eu cefnogaeth, eu cymuned, eu mynediad at iechyd, eu hannibyniaeth, eu bywyd cymdeithasol a'u perthnasoedd. Mae staff Iechyd a Gofal Cymdeithasol yn gweithio gyda'r 'Dream Team' ar sail ranbarthol i ddatblygu ffyrdd o wella gwasanaethau i bobl ag anableddau dysgu. Fel rhan o ymrwymiad y Siarter, bydd aelodau'r 'Dream Team' Gorllewin Cymru yn cynnal archwiliadau. Nid oes gan Gyngor Ceredigion dyddiad archwilio eto.<br><br>Yn 2022-23, mynychodd 128 o staff sesiynau hyfforddiant ar ymwybyddiaeth anabledd, profiad realiti awtistiaeth a sesiynau hyfforddi Ymwybyddiaeth Awtistiaeth Hanfodol (89 o staff mewnol a 38 allanol). Mynychodd 15 o bobl hyfforddiant Hawdd ei Ddeall (14 mewnol ac 1 allanol). Prynwyd 12 trwydded i ddefnyddio llyfrgell Ffoto-symbolau Hawdd eu Darllen i helpu'r Cyngor i greu arwyddion, llythyrau a dogfennau Hawdd eu Deall. |

| **Amcan 4: Urddas, Parch a Mynediad at Wasanaethau.**<br><br>**Sicrhau mynediad teg a chyfartal i bob gwasanaeth. Byddwn yn gwneud hyn drwy sicrhau bod pobl â nodweddion gwarchodedig yn cael eu trin ag urddas a hefyd yn diwallu eu hanghenion lle maent yn wahanol i anghenion pobl eraill.** | | | |
|---|---|---|---|
| **Gweithredu 4.1** | Byddwn yn hwyluso mynediad at wybodaeth, cyngor a chymorth trwy Porth Cymorth Cynnar, gan gynnwys Dewis a Gwasanaethau Gwybodaeth i Deuluoedd. Byddwn hefyd yn cyflwyno sesiynau cymunedol dementia-gyfeillgar a thechnoleg hygyrch. | **Porth Cymorth Cynnar** | **Gwyrdd** |
| **Canlyniadau:**<br>• Mae mwy o bobl yn cael eu cynorthwyo.<br>• Mwy o sesiynau dementia-gyfeillgar yn cael eu darparu. | | | |
| Mae 543 o ddefnyddwyr cofrestredig a 607 o adnoddau ar gyfer Ceredigion ar wefan Dewis ar ddiwedd mis Mawrth 2023. Atgoffir pob darparwr gofal plant cofrestredig i ddiweddaru eu gwybodaeth ar Dewis. Mae'r holl grantiau a weinyddir gan yr Uned Gofal Plant yn ei gwneud yn ofynnol i ymgeiswyr ddiweddaru gwybodaeth am Dewis yn rheolaidd i fod yn gymwys ar gyfer y grantiau. | | | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Cynigiodd y Cysylltwyr 42 sesiwn galw heibio ledled Ceredigion i ddarparu cyngor a chymorth wyneb yn wyneb i'r cyhoedd. Deliodd y tîm Gofalwyr a Chymuned â 3,538 o ymholiadau drwy Clic. Roedd y rhain yn cynnwys ceisiadau am gymorth gan y Cysylltwyr, ceisiadau am daliad incwm isel Llywodraeth Cymru i ofalwyr di-dâl a chardiau Gofalwyr Ceredigion sy'n rhoi mynediad i ofalwyr di-dâl i aelodaeth a gostyngiadau am ddim ledled Ceredigion.  Yn ogystal â'r ymholiadau hyn, deliodd y tîm â 621 o geisiadau ychwanegol ar gyfer y gronfa Gofalwyr. Roedd 1,970 o Ofalwyr di-dâl yn gofrestredig gyda'r Gwasanaeth Gwybodaeth i Ofalwyr ym mis Mawrth 2023.<br><br>Mynychodd 86 o staff sesiynau ymwybyddiaeth dementia a sesiynau hyfforddi Dementia Interpreter (59 o staff mewnol a 27 allanol). Cafodd 146 o bobl eraill, rhai ohonynt yn Ofalwyr di-dâl, hyfforddiant dementia rhithwir ar y bws dementia. Cynhaliwyd 5 sesiwn ymgysylltu gyda 93 o bobl hŷn. Mae eu hadborth wedi cyfrannu at ein hunanasesiad Oed-gyfeillgar a fydd yn ein galluogi i ymuno â'r rhwydwaith Cymunedau Oed-gyfeillgar yng Nghymru. | | | |
| **Gweithred 4.2** | Byddwn yn darparu cefnogaeth wedi'i dargedu megis "Cynllun Cyfeirio" a'r cynllun "Ymuno"  i alluogi plant ag anghenion ychwanegol i fynychu gweithgareddau prif ffrwd. | **Porth Cynnal / Ysgolion** | **Gwyrdd** |
| **Canlyniad:** Gall plant ag anghenion ychwanegol fynychu gweithgareddau gofal plant a chwarae prif ffrwd. | | | |
| Manteisiodd 6 o blant ar gymorth Ymuno mewn 3 lleoliad gofal plant yn ystod 2022-23  (manteisiodd 1 plentyn yn 2021-22). Ymatebodd 1 lleoliad gofal plant  a 2 teulu i'r holiadur adborth 2022-23.  Adroddodd pob un ohonynt  fod Ymuno wedi  gwneud gwahaniaeth cadarnhaol i ddatblygiad cymdeithasol y plentyn a dywedodd y teulu fod y cynllun wedi eu galluogi i aros mewn gwaith.<br><br>Mae'r nifer sy'n manteisio ar Ymuno yn  parhau i fod yn isel ond mae'n gwella'n araf. Roedd nifer y plant anabl a fynychodd glybiau ar ôl ysgol yn ddealladwy wedi lleihau yn ystod y pandemig ac mae'n cymryd amser i niferoedd gynyddu. Gwaethygir y sefyllfa gan y ffaith bod y ddau brif leoliad gofal plant a ddefnyddiodd gynllun Ymuno (yn Aberteifi a Phenparcau), wedi cau yn ystod y pandemig. Nid yw'r ddarpariaeth gofal plant wedi ailddechrau yn y ddwy ardal hon eto ac mae hyn yn golled fawr i blant anabl a'u teuluoedd. Mae nifer y clybiau y tu allan i'r ysgol gofrestredig yng Ngheredigion wedi gostwng oherwydd amryw o resymau ond rydym wedi gweld cynnydd yn nifer y clybiau sydd heb eu cofrestru.  Mae Ymuno yn ariannu cefnogaeth mewn lleoliadau gofal plant cofrestredig yn unig.<br><br>Cefnogwyd 175 o blant ag anghenion ychwanegol mewn lleoliadau cyn ysgol gan Gynllun Cyfeirio (150 yn 2021-22).  Cefnogwyd 7 o blant gan y Grant Cymorth Ychwanegol Cynnig Gofal Plant. Roedd hyn yn ychwanegol i'r cyllid Cynllun Cyfeirio a dderbynion nhw hefyd. | | | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Yn dilyn penodiad y Swyddog Arweiniol Anghenion Dysgu Ychwanegol Blynyddoedd Cynnar gan yr Awdurdod Lleol, datblygwyd rhaglen hyfforddi benodol ar gyfer y sector Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant. Mae 87% o warchodwyr plant a 100% o arweinwyr lleoliadau gofal plant bellach wedi ymgymryd â'r hyfforddiant hwn ac mae'r sector yn ei werthfawrogi. Casglwyd y sylwadau canlynol o ffurflenni adborth:<br><br>• *"Mae'n fy ngwneud i'n fwy ymwybodol o unrhyw anawsterau y gallai plentyn eu cael a sut alla i eu helpu neu gael help ychwanegol iddyn nhw".*<br>• *"Dwi'n teimlo bod gen i'r hyder i fynd i'r afael â phroblemau gyda'r teulu ac maen nhw'n gwrando arna i"*<br>• *"Mae un ferch fach yn fy ngofal a heb sgiliau iaith. Roedden ni'n teimlo'n ddigon hyderus i drafod y ffordd ymlaen i'r rhieni heb eu poeni."* | | | |
| **Gweithred 4.3** | Byddwn yn darparu cyfleoedd i bobl ag anableddau dysgu ddatblygu ystod o sgiliau bywyd sy'n diwallu eu hanghenion (Cyfathrebu Cyflawn, Creative Lifestyle Solutions, Llond Bol, Canolfan Cymorth Cymunedol). | **Porth Gofal / Ysgolion** | **Gwyrdd** |
| **Canlyniad:** Mwy o bobl sydd wedi defnyddio gwasanaethau eiriolaeth. | | | |
| Mae 'Camu 'Mlaen' yn cael ei arwain gan Gyngor Ceredigion ac yn cael ei ddarparu gan ysgolion Ceredigion, staff Gwasanaethau Cymdeithasol, Coleg Ceredigion a Gyrfa Cymru. Mae’r fenter yn rhoi cyfle i bobl ifanc ag anghenion dysgu ychwanegol aros a pharhau â'u haddysg yng Ngheredigion a datblygu sgiliau allweddol wrth iddynt baratoi ar gyfer eu cam nesaf mewn bywyd. Mae'r 3ydd garfan o bobl ifanc wedi dechrau’r cwrs 2 flynedd ym mis Medi 2022 gyda'r garfan 1af yn graddio ym mis Awst 2022. Mae pobl ifanc yn yr ysgol yn dechrau pontio'n raddol o'r ysgol i ddarpariaeth 'Camu 'Mlaen' ym mis Ionawr bob blwyddyn. | | | |
| **Gweithred 4.4** | Byddwn yn datblygu manyleb a dogfennau tendro ar gyfer gwasanaethau eiriolaeth newydd ar gyfer Anableddau Dysgu, Iechyd Meddwl a Phobl Hŷn. | **Cyllid a Chaffael** | **Glas** (cyflawn) |
| **Canlyniad:** Mwy o bobl sydd wedi defnyddio gwasanaethau eiriolaeth. | | | |
| Dechreuodd y contract eiriolaeth ranbarthol newydd gyda 3CIPA ar 1 Ebrill 2022. Mae yn gonsortiwm o 5 darparwr, sy'n ehangu’r cwmpas meysydd darpariaeth eiriolaeth ac arbenigeddau. Mae hyn wedi galluogi'r gwasanaeth i fod ar gael i bawb, nid yn unig i bobl hŷn neu'r rhai sydd ag anableddau dysgu neu faterion iechyd feddwl. Cymerodd 3CIPA 65 o atgyfeiriadau newydd yn 2022-23. | | | |

<table>
<tr><td colspan="4">Mae'r Strategaeth Eiriolaeth ranbarthol wedi'i drafftio ac mae'n mynd drwy'r prosesau arwyddo gyda'r tri Awdurdod Lleol a Bwrdd Iechyd Hywel Dda cyn mabwysiadu.</td></tr>
<tr><td>Gweithred 4.5</td><td>Byddwn yn darparu ystod ddwyieithog o ddosbarthiadau Ymyrraeth Iechyd ar draws pob rhan o'r sir, gan gynnwys cyflyrau cronig cymhleth ar gyfer cyflyrau ar y galon, Iechyd Meddwl, Rheoli Poen (Dianc) Canserau ac Atal Cwympiadau, gan gynnwys y rhaglen Hyfforddiant Sadrwydd Osgo o dan y Cynllun Cenedlaethol Atgyfeirio Ymarfer Corff (NERS).</td><td>Porth Cymorth Cynnar</td><td>Gwyrdd</td></tr>
<tr><td colspan="4">Canlyniadau:<ul><li>200 neu mwy o Ddosbarthiadau Ymyrraeth Iechyd bob mis, pob un o fewn 20 munud o amser teithio i bob cleient.</li><li>Nifer yr unedau gweithgaredd a ddarperir y flwyddyn.</li><li>Rhaglenni sydd wedi'u hadeiladu o amgylch y cleient er mwyn adeiladu arferion sy'n newid bywydau wrth gadw lles gweithredol ac iechyd meddwl.</li></ul></td></tr>
<tr><td colspan="4">Derbyniwyd 1,011 o atgyfeiriadau NERS yn 2022/23. Dilynir yr holl atgyfeiriadau, er nad yw pob preswylydd yn penderfynu dechrau'r ymyrraeth. Darparwyd 29,000 o Unedau Gweithgareddau yn 2022-23.<br><br>Cynigiwyd 424 o ddosbarthiadau neu weithgareddau Ymyrraeth Iechyd, gan gynnwys NERS, Fit4Life a Theithiau Cerdded Lles bob mis yng Ngogledd, Canolbarth a De'r sir. Roedd 3,137 o bobl yn mynychu rhaglenni Ymyrraeth Iechyd ym mis Ebrill 2023. Mae'r holl raglenni yn brysur ac yn cael derbyniad da gan gleientiaid o bob cwr o Geredigion.</td></tr>
<tr><td>Gweithred 4.6</td><td>Prosiect Cylch Caron – byddwn yn sefydlu gofal yn y gymuned i ddiwallu anghenion iechyd a thai sy'n addas i'r diben.</td><td>Porth Gofal</td><td>Ambr</td></tr>
<tr><td colspan="4">Canlyniad: Mae'r nifer o wasanaethau ychwanegol sydd eu hangen fel rhan o Brosiect Cylch Caron yn cael eu nodi.</td></tr>
<tr><td colspan="4">Rydym yn weithio ar manylebau tendr ar gyfer prosiect Cylch Caron ar hyn o bryd a'u trefnu i fynd trwy Craffu a'r Cabinet i'w cymeradwyo yn 2023-24.</td></tr>
<tr><td>Gweithred 4.7</td><td>Byddwn yn bwrw ymlaen â datblygu Cofrestr Tai Hygyrch ac yn gweithio ar sicrhau bod cyngor a gwasanaethau Opsiynau Tai yn hygyrch.</td><td>Porth Gofal</td><td>Gwyrdd</td></tr>
</table>

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Canlyniad:** Lefelau boddhad uwch o bobl sy'n gwneud cais am dai hygyrch. | | | |
| Mae'r Gofrestr Tai Hygyrch bellach yn fyw. Gall ymgeiswyr hunangyfeirio ond cymerir camau ychwanegol gan swyddogion i sicrhau eu bod ar y rhestr fer ar gyfer yr eiddo cywir a bod cyfleoedd yn cael eu gwneud i'r eithaf ar gyfer pobl sy'n gwneud cais am dai hygyrch. Mae gwaith pellach ar y gweill i fapio'r eiddo hygyrch yn y Sir fel y gallwn gynghori ymgeiswyr yn briodol. Nid oedd dyraniad tai hygyrch yn 2022-23. | | | |
| **Gweithred 4.8** | Byddwn yn ystyried darparu mynediad i'r gwasanaeth trafnidiaeth gyhoeddus i bobl anabl, pobl hŷn a theuluoedd â phlant ifanc fel rhan o unrhyw waith cynnal a chadw neu wella a wneir. | **Priffyrdd a Gwasanaethau Amgylcheddol** | **Gwyrdd** |
| **Canlyniadau:**<br>• Mae gwaith i wella arosfannau bysiau ar hyd y llwybr T2/T5.<br>• Parhau i gefnogi a hwyluso menter Llywodraeth Cymru sy'n cynnig teithio am ddim i bawb ar benwythnosau ar rwydwaith TrawsCymru.<br>• Mae'r ddwy fenter yn gwella hygyrchedd trwy gyfrwng gwelliannau i'r seilwaith a'r gwasanaethau | | | |
| Mae menter Llywodraeth Cymru a oedd yn darparu teithiau penwythnos am ddim ar rwydwaith TrawsCymru bellach wedi dod i ben. Mae gwaith wedi parhau ar welliannau i fynediad, arosfannau newydd a darparu gwybodaeth ar goridorau'r T2 a'r T5. Rydym wedi sefydlu contractau tymor byr i gadw lefelau gwasanaeth yn ystod cyfnod anodd i'r diwydiant bysiau. Rydym yn parhau i weithio gyda phartneriaid allweddol gan gynnwys Llywodraeth Cymru, Trafnidiaeth Cymru a'r gweithredwyr gyda'r bwriad o ddarparu'r lefel orau o gyfleoedd a gwasanaethau teithio i'r cyhoedd gyda'r adnoddau sydd ar gael.<br><br>Rydym wedi sicrhau cyllid gan Lywodraeth Cymru ac wedi cynnal ymarfer caffael i ddarparu contractau bysiau lleol. Bydd y gwasanaethau newydd yn dechrau ym mis Medi 2023. Fel rhan o hyn, rydym wedi darparu bwrdd prisiau wedi'i seilio ar filltiroedd a ddylai wneud prisiau bws yn fwy cyson ar draws y sir.<br><br>Rydym yn parhau i weithio gyda rhanddeiliaid eraill, gan gynnwys awdurdodau lleol cyfagos ar wasanaethau gan gynnwys y Cyswllt / Bwcabus yn ogystal â gwasanaethau trawsffiniol**.** Mae bysiau trydan newydd wedi dechrau ar y gwasanaeth T1 rhwng Aberystwyth a Chaerfyrddin. Mae'r gwasanaethau hyn yn cael eu comisiynu a'u rheoli gan Trafnidiaeth Cymru ar ran Llywodraeth Cymru. Dyma'r model gwasanaethau TrawsCymru yn symud ymlaen - hyd yn hyn yr Awdurdodau Lleol sydd wedi cyflawni'r rôl comisiynu a rheoli contractau**.** | | | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Gweithred 4.9** | Byddwn yn ystyried anghenion pobl anabl wrth gynnal a chadw neu wella llwybrau troed a cherbytffyrdd (er enghraifft cyrbiau is). | **Priffyrdd a Gwasanaethau Amgylcheddol** | **Ambr** |
| **Canlyniad:** Mwy o welliannau i lwybrau troed sy'n mynd i'r afael â materion hygyrchedd. | | | |
| Gyda chyllideb Priffyrdd sy'n gostwng mae'r gwaith a wneir yn lleihau ac felly mae'n rhaid i'r pwyslais fod ar gynnal a chadw yn hytrach na gwella. | | | |
| **Gweithred 4.10** | Byddwn yn parhau i weithredu Cymhennu Ceredigion er mwyn codi ymwybyddiaeth a lleihau nifer y rhwystrau ar lwybrau troed yn ein trefi megis byrddau hysbysebu ffrâm A a biniau ar olwynion. | **Priffyrdd a gwasanaethau amgylcheddol** | **Gwyrdd** |
| **Canlyniad:** Mae Cyhoeddiadau Clutter Free Ceredigion yn cael eu rhannu / cyhoeddi ar lwyfannau cyfryngau cymdeithasol y Cyngor yn rheolaidd sy'n darparu ar gyfer codi ymwybyddiaeth yn barhaus. | | | |
| Mae cyhoeddiadau [Cymhennu Ceredigion <http://www.ceredigion.gov.uk/preswyliwr/caru-ceredigion/>](http://www.ceredigion.gov.uk/preswyliwr/caru-ceredigion/) yn cael eu defnyddio a'u cyfeirio gyda'r bwriad o gael dylanwad cadarnhaol ar y mater rhwystrau ar lwybrau troed. | | | |
| **Gweithred 4.11** | Byddwn yn cynnal archwiliadau hygyrch i sicrhau bod pob aelod o'r cyhoedd yn gallu cael mynediad i swyddfeydd y Cyngor. | **Economi ac Adfywio** | **Gwyrdd** |
| **Canlyniad:** Nifer cynyddol o adolygiadau hygyrch wedi'u cynnal, a'r gwelliannau a argymhellwyd wedi cael sylw. | | | |
| Rydym yn parhau i gynnal archwiliadau hygyrchedd ar gyfer adeiladau'r Cyngor a datblygiadau mawr. Mae hyn yn cynnwys gweithredu'r Strategaeth Toiledau o ran hygyrchedd a gwaith parhaus i gynyddu nifer y toiledau gyda mannau newid yn y Sir. | | | |
| **Gweithred 4.12** | Rydym wedi cyflawni safon hygyrchedd AA ar gyfer ein gwefan a byddwn yn gweithio tuag at ennill safon AAA, gan gynnwys darparu bar offer darllenadwy. | **Cyswllt Cwsmeriaid** | **Glas** (cyflawn) |
| **Canlyniad:** Lefelau uwch o foddhad cwsmeriaid. | | | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Bydd y camau hyn bob amser yn mynd rhagddynt i fodloni unrhyw safonau newydd – rydym wedi cyflawni'r holl safonau sylfaenol angenrheidiol ar gyfer hygyrchedd (gradd AA). Mae dros 90% o'r wefan wedi cyrraedd safon AAA. Mae'r 10% sy'n weddill oherwydd y defnydd dogfennau PDF sydd bron yn amhosibl eu cyrraedd. Rydym yn annog darparwyr cynnwys gwe i ystyried cyhoeddi 2 neu 3 tudalen we yn hytrach na dogfennau PDF sengl. | | | |
| **Gweithred 4.13** | Byddwn yn parhau i reoli llwybr yr arfordir i sicrhau bod y llwybr yn bodloni disgwyliadau ymwelwyr, gan gynnwys parhau i ddilyn egwyddorion ' *Mynediad Lleiaf Rhwystrol'* lle bo hynny'n bosibl. Byddwn yn ystyried anghenion pobl ag anableddau wrth gynnal neu wella hawliau tramwy cyhoeddus. | **Economi ac Adfywio** | **Gwyrdd** |
| **Canlyniad:** Mae'r egwyddorion mynediad lleiaf rhwystrol wedi'u cynnwys yn y Cynllun Gwella Hawliau Tramwy. | | | |
| Mae nodi rhwystrau i fynediad, er enghraifft, graddiannau, camfâu, wyneb y llwybr, wedi'u cynnwys fel safon ym mhob taflen llwybrau a hyrwyddir. Rydym yn parhau i weithio tuag at yr egwyddorion mynediad lleiaf rhwystrol. Gatiau yw'r prif opsiwn ar hawliau tramwy cyhoeddus gyda chamfa yn unig yn cael ei defnyddio mewn amgylchiadau eithriadol a lle na ellir perswadio tirfeddianwyr fel arall. Mae gwelliant parhaus yn cael ei wneud ar wynebu llwybrau a gwella lled ar y llwybr arfordirol a llwybrau mewndirol eraill. Mae holiadur ar-lein wedi'i sefydlu i ddeall anghenion lleol. Mae hwn yn arolwg penagored sy'n llywio gwaith gwella mynediad lleol.<br><br>Defnyddiwyd cyllid cyfalaf pellach i ddisodli pontydd troed sy'n helpu i gydymffurfio â lled o 1.2m sydd wedi'i gynnwys yn y canllawiau "trwy bob dull rhesymol" ar fynediad lleiaf cyfyngol. Cafwyd Grant Gwella Mynediad Llywodraeth Cymru gwerth £75,000 i wella mynediad ar draws y sir. | | | |
| **Gweithred 4.14** | Byddwn yn mynd i'r afael â mynediad cyfartal i ardaloedd chwarae i gefnogi’r cynllun gweithredu digonolrwydd chwarae | **Porth Cymorth Cynnar** | **Gwyrdd** |
| **Canlyniad:** Cynnydd yn y nifer o geisiadau am grant wrth y Cyngor i wella ardaloedd chwarae a gefnogir gan bolisi neu gynlluniau i ddarparu man chwarae hygyrch. | | | |
| Cynigir cefnogaeth i holl aelodau'r Rhwydwaith Ardal Chwarae drwy e-bost. Yn anffodus, nid oedd unrhyw grantiau cyfalaf ar gael eleni gan Lywodraeth Cymru, ac mae'n anodd iawn gwella hygyrchedd heb gyllid cyfalaf. Roedd cais i UKSPF am gyllid cyfalaf i wella parciau | | | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| ac ardaloedd chwarae yn aflwyddiannus. Bûm yn gweithio gyda CAVO i greu dogfen sy'n amlinellu lle gall ymddiriedolwyr ardal Parc a Chwarae wneud cais am gymorth. | | | |
| **Gweithred 4.15** | Byddwn yn sicrhau bod ein polisi caffael a'n manyleb contract yn cynnwys Cydraddoldeb a'r Gymraeg fel gwybodaeth safonol. | **Cyllid a Chaffael** | **Glas** (cyflawn) |
| **Canlyniad:** Canran y manylebau contract a gyhoeddwyd gyda gofynion Cydraddoldeb a'r Gymraeg. | | | |
| Mae'r holl gontractau sylweddol yn cael eu hysbysebu ar system e-dendro Cymru. Mae gan 100% o'r tendrau hyn gwestiynau Cydraddoldeb a gofynion Iaith Gymraeg wedi'u hymgorffori ynddynt fel rhan o broses safonol. Efallai na fydd y rhai sy'n cyflwyno tendr ac sy'n methu ymateb yn gadarnhaol i'r gofynion yn symud ymlaen i'r cam nesaf. Mae Cod Ymarfer Llywodraeth Cymru ar gyfer Cyflogaeth Foesegol mewn Cadwyni Cyflenwi hefyd wedi'i gynnwys yn y tendrau hyn fel safon. Datblygwyd templed manyleb contract safonol sy'n rhoi gofynion Cydraddoldeb a'r Gymraeg ar y rhai sy'n darparu nwyddau neu wasanaethau ar ran y Cyngor. | | | |
| **Gweithred 4.16** | Byddwn yn parhau i gefnogi clybiau chwaraeon cymunedol i gyflawni'r Wobr Anabledd Insport. | **Porth Cymorth Cynnar** | **Ambr** |
| **Canlyniad:** Mwy o brosiectau gwirfoddol /cymunedol i hyfforddi ac addysgu pobl i fod yn fwy hyderus a datblygu cyfleoedd mwy cynhwysol yn ein cymunedau. | | | |
| Mae peth oedi wedi bod gyda chefnogi Clybiau Chwaraeon Cymunedol Ceredigion gyda'r broses achredu clwb Insport. Mae hyn oherwydd newidiadau staff yn ein gwasanaeth yn ogystal â Chwaraeon Anabledd Cymru (DSW) yn adolygu'r broses Clwb Insport. Fodd bynnag, ni wnaeth hyn amharu ar ein cynnydd wrth gefnogi cyfleoedd cynhwysol yn ein cymunedau.<br><br>Aeth Gwobrau Chwaraeon Ceredigion eleni i Wirfoddolwr Chwaraeon Anabledd y Flwyddyn ac mae dau enillydd y Wobr Gwirfoddolwr Llysgennad Ifanc y Flwyddyn yn gwirfoddoli gyda Chlwb Chwaraeon Anabledd yn Aberteifi. Yn ogystal, helpodd 15 o wirfoddolwyr ifanc (sydd ag anableddau dysgu) i redeg y rhaglen gynhwysol Chwarae i Bawb ledled Ceredigion ar gyfer tua 60 o bobl ifanc.<br><br>Roedd y Rhaglen Wyliau eleni yn cynnwys digwyddiadau penodol i anabledd a drefnwyd yng ngogledd, canolbarth a de Ceredigion. Hefyd cynhaliodd Ceredigion Actif ddau ddigwyddiad Insport yn 2023 - digwyddiad tîm yn cynnig saethyddiaeth, ffensio, boccia, pêl-fasged cadair olwyn a rygbi a nofio a digwyddiad i'r nam ar y clyw yn cynnig rygbi, golff, pêl-droed, tenis, tenis bwrdd ac athletau. | | | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Gweithredu 4.17** | Byddwn yn datblygu gweledigaeth ar gyfer Ceredigion Actif gan ennill gwobr Insport safon aur. | **Porth Cymorth Cynnar** | **Ambr** |

**Canlyniadau:**

- Parhau â'r broses o deithio a dysgu staff, partneriaid a gwasanaethau o statws Rhuban i Aur.
- Bod yn wasanaeth cynhwysol a gweledigaethol ar gyfer pob safon.

Cynhaliwyd y cyfarfod cyn-panel cychwynnol rhwng ein tîm a chynrychiolwyr Chwaraeon Anabledd Cymru i drafod yr hyn sy'n ofynnol ar gyfer achrediad Aur a lle rydym fel Awdurdod Lleol ar hyn o bryd. Mae angen rhagor o waith yn awr i gasglu'r wybodaeth er mwyn symud ymlaen i'r panel llawn.

**Amcan 5: Addysg Deg a Chynhwysol**

**Rydym am sicrhau bod plant a phobl ifanc yn cyrraedd eu potensial llawn. Dylai'r hawl i addysg a hyfforddiant hefyd sicrhau hygyrchedd ac amgylchedd sy'n rhydd rhag bwlio neu aflonyddu. Mae hyn yn cynnwys dysgu gydol oes.**

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Gweithred 5.1** | Byddwn yn cefnogi Ysgolion i sicrhau eu bod yn adolygu ac yn diweddaru eu Cynlluniau Cydraddoldeb Strategol. | **Ysgolion a Diwylliant** | **Glas** (cyflawn) |

**Canlyniadau**:

- Mae pob ysgol yn adrodd ac yn cadarnhau eu bod wedi cwblhau cynlluniau cydraddoldeb strategol unigol yn ystod tymor yr haf yng nghyfarfodydd y corff llywodraethu.
- Mae gan bob ysgol Gynllun Cydraddoldeb Strategol ar waith.

Mae'r ddau ganlyniad wedi’u cyflawni.

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Gweithred 5.2** | Byddwn yn cefnogi ysgolion i fynd i'r afael â bwlio ar sail hunaniaeth ac i weithredu Pecyn Cymorth a Chanllawiau Gwrth-fwlio arfaethedig Llywodraeth Cymru ar ôl iddo gael ei lansio yng ngwanwyn 2020. | **Ysgolion a Diwylliant** | **Glas** (cyflawn) |

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Canlyniadau:**<br>• Mae pob ysgol wedi adolygu eu polisi gwrth-fwlio.<br>• Mae polisi drafft wedi ei greu ar gyfer ysgolion o'r canllawiau gwrth-fwlio newydd.<br>• Copi drafft wedi ei anfon i'w ymgynghori arno a cheisio cymeradwyaeth uwch staff addysg cyn cael ei gylchredeg i'r ysgolion. | | | |
| Mae'r Canllawiau Gwrth-fwlio wedi'u cymeradwyo gan y Cabinet ac mae bellach yn cael ei fabwysiadu fel polisi. Mae gan bob ysgol gopi o'r polisi, sy'n parhau i gael ei ddiwygio'n flynyddol. Mae pob ysgol gynradd wedi cael cynnig hyfforddiant gwrth-fwlio KiVa. Mae 6 ysgol gynradd wedi derbyn yr hyfforddiant. Ar hyn o bryd nid oes hyfforddiant ar gael ar gyfer ysgolion uwchradd.<br><br>Mae'r polisi Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb wedi cael ei gymeradwyo gan y Cabinet a'i rannu gydag ysgolion. Bydd hyn nawr yn cael ei fabwysiadu gan Lywodraethwyr i gefnogi perthnasoedd iach a pharchus. | | | |
| **Gweithred 5.3** | Byddwn yn gwella'r ddarpariaeth a'r canlyniadau ar gyfer plant ag Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY), yn lleihau'r bwlch cyrhaeddiad rhwng plant heb ADY a'r rhai sydd ag ADY. | **Ysgolion a Diwylliant** | **Gwyrdd** |
| **Canlyniadau:**<br>• Mae pob disgybl ag ADY wedi gwneud cynnydd priodol yn unol â'i anghenion.<br>• Tystiolaeth trwy ddata ar gyflawniad plant ADY ym mhob cyfnod allweddol. | | | |
| Yn 2021/22, cyflawnodd 44.4% o ddysgwyr ADY 5 gradd A*- C (neu gyfwerth) yn CA4, tra bod 78.8% wedi ennill 5 gradd A*- G. Ar gyfartaledd, cyflawnodd dysgwyr ADY sgôr 9 wedi'i Capio o 283. Nid yw'n bosib cymharu hyn â blynyddoedd blaenorol oherwydd yr effaith y mae COVID wedi'i chael ar gymwysterau ers 2019, a hefyd yr effaith y mae'r cod ADY newydd yn ei gael ar y garfan hon o ddisgyblion. | | | |
| **Gweithred 5.4** | Byddwn yn gwella'r ddarpariaeth a'r canlyniadau ar gyfer plant sy'n derbyn gofal er mwyn lleihau bylchau a nodwyd mewn cyrhaeddiad. | **Ysgolion a Diwylliant** | **Gwyrdd** |
| **Canlyniad:** Gwnaeth yr holl ddisgyblion sy'n Blant sy'n Derbyn Gofal gynnydd priodol yn ôl yr angen (a dystiwyd gan ddata ar gyflawniad plant sy'n derbyn gofal ar bob cam allweddol). | | | |

Ar y cyfan, mae perfformiad Plant sy'n Derbyn Gofal yng Ngheredigion yn dda. Mae tystiolaeth fonitro fewnol yn dangos bod disgyblion yn gwneud cynnydd. Ni fydd unrhyw adrodd ar ddata Diwedd Cyfnod Allweddol oherwydd Covid-19. Ar hyn o bryd mae 92 o blant Ceredigion mewn gofal ar y gofrestr (48 wedi'u gosod yng Ngheredigion a 44 wedi'u lleoli allan o'r sir), gyda 35 ohonynt ag ADY. Yn ogystal, mae 26 o ddisgyblion y tu allan i'r sir wedi'u rhoi yng Ngheredigion gan awdurdodau eraill; Mae gan 14 o'r rhain ADY sy'n gofyn am lefel ychwanegol o gymorth, gweler y rhifau isod:

| **Lefel cymorth** | **Disgyblion Ceredigion o Geredigion** | **Disgyblion Ceredigion o awdurdodau eraill** |
|---|---|---|
| Gweithredu gan yr Ysgol a Chytundeb Adnoddau | 5 | |
| Datganiad | 1 | 7 |
| Gweithredu gan yr Ysgol a Mwy | 13 | 3 |
| Gweithredu gan yr Ysgol | 11 | 3 |
| Cynllun Datblygu Unigol | 5 | 1 |
| **Cyfanswm** | **35** | **14** |

Mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion sy'n derbyn gofal yn cael eu haddysgu yn ein hysgolion prif ffrwd, ond mewn rhai achosion mae angen darparu pecyn cwricwlwm amgen i ddiwallu anghenion y disgybl. Ar hyn o bryd mae'r garfan a nodwyd yn trosglwyddo o'r hen system AAA i'r system ADY newydd.

Mae modiwlau ymlyniad, trawma a hyfforddiant chwarae sy'n seiliedig ar berthynas bellach ar gael i bob aelod o staff addysg drwy blatfform HWB. Bu ffocws ychwanegol hefyd ar les disgyblion. Mae hyn wedi cynyddu capasiti staff ysgolion i ddeall a bodloni anghenion ymlyniad nifer ehangach o ddisgyblion.

| **Gweithred 5.5** | Byddwn yn helpu dysgwyr o ethnig leiafrifol i gael mynediad i'r cwricwlwm i sicrhau eu bod yn cyflawni eu potensial llawn ac yn gwella eu cyrhaeddiad. | **Ysgolion a Diwylliant** | **Gwyrdd** |
|---|---|---|---|

**Canlyniadau:**

- Darparu cymorth peripatetig parhaus a/neu ymyrraeth ar gyfer ysgolion a dargedwyd a gweithredu rhwng rhanddeiliaid yn yr Awdurdod Lleol.

- 5% o ddisgyblion wedi symud i fyny lefel o ran cynnydd Saesneg fel Iaith Ychwanegol, gydag 1% yn gwneud 2 lefel neu fwy o gynnydd.
- 64% o'r disgyblion ar god C-E, o'r rhain mae 61% yn ddigonol (D) neu'n rhugl (E).

Wrth gymharu PLASC yn 2023 â 2022, symudodd 20% o’r disgyblion i fyny lefel o ran eu rhuglder, tra bod 8% yn gwneud cynnydd o 2 lefel neu fwy. Mae 73% o ddisgyblion EAL bellach yn cael eu codio C-E, gyda 55% yn ddigonol (D) neu'n rhugl (E).

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Gweithred 5.6** | Byddwn yn datblygu ymyraethau wedi'u targedu ar gyfer plant sy'n derbyn prydau ysgol am ddim. | **Ysgolion a Diwylliant** | **Gwyrdd** |

**Canlyniadau:**

- Darperir hyfforddiant wedi'i dargedu ar gyfer ymyraethau e.e. Rhifedd, Iaith, ADY, Sgiliau Meddwl.
- Mae hyfforddiant yn cefnogi defnydd effeithiol o Hafan a chymhwystra prydau Ysgol am Ddim o fewn asesiad proffil.
- Mae cynadleddau yn hyrwyddo dealltwriaeth ac ymyrraeth ar fwlio, llais y plentyn, iechyd a llesiant.

Darparwyd hyfforddiant Rhifedd, Iaith, ADY (heriau ymddygiad ac emosiynol) a Sgiliau Meddwl gan ystod o dimau ac mae'r adnoddau hyfforddi bellach ar gael ar ein gwefan. Mae ein dull ataliol yn golygu bod yr hyfforddiant wedi'i dargedu yn unol â gallu ac anghenion unigolion, nid yn unig ar ddisgyblion sy'n derbyn prydau ysgol am ddim. Fodd bynnag, mae'r hyfforddiant yn targedu anghenion a strategaethau sy'n berthnasol iawn i ddisgyblion sy'n derbyn prydau ysgol am ddim.  Mae hyfforddiant Codi Cyrhaeddiad Plant dan Anfantais (RADY), hyfforddiant Cymorth Cyntaf Iechyd Meddwl a hyfforddiant Ysgolion sy'n Ystyriol o Drawma hefyd wedi'i gyflwyno.

Cynhaliwyd hyfforddiant a chefnogaeth i staff Hafan ddechrau'r flwyddyn. Cynhaliwyd arolwg mewnol i fonitro'r holl ddarpariaeth Hafan yn y Sir. Dangosodd y canlyniadau fod ysgolion yn gwneud defnydd effeithiol iawn o ddosbarthiadau Hafan, bod disgyblion yn hoffi'r hyn y mae Hafan yn ei gynnig a'u bod yn teimlo ei fod o fudd mawr iddynt. Nodwyd hefyd y defnydd effeithiol o Gynorthwywyr Cymorth Llythrennedd Emosiynol (ELSA). Mae disgyblion ar draws ysgolion yn defnyddio'r ddarpariaeth, yn enwedig disgyblion sy'n derbyn prydau ysgol am ddim, ond nid oes data penodol ar y plant unigol sy'n defnyddio Hafan.

Cynhaliwyd cynhadledd  Llais y Plentyn ar-lein oherwydd costau cludo. Gwahoddwyd disgyblion Blwyddyn 6 a 7 yn y cyfnod pontio ac fe wnaethant roi mewnbwn i gynllun Llesiant Lleol Ceredigion. Bu ein swyddog lles hefyd yn cynnal trafodaethau gyda chynghorau ysgol ar draws y sir.

<table>
<tr><td>Gweithred 5.7</td><td>Byddwn yn gwneud gwaith uwchraddio i adeiladau ysgolion ar sail anghenion ar y cyd â chynlluniau hygyrchedd ysgolion unigol.</td><td>Ysgolion a Diwylliant</td><td>Gwyrdd</td></tr>
<tr><td colspan="4">Canlyniadau:<ul><li>Bydd ceisiadau am gyfalaf yn cael eu derbyn trwy dderbyn cynlluniau hygyrchedd ysgolion sy'n tynnu sylw at y gwaith sydd ei angen.</li><li>Nifer yr addasiadau i'r ysgol a'r nifer a gwblhawyd.</li></ul></td></tr>
<tr><td colspan="4">Derbyniwyd un cais i ddarparu lifft newydd mewn ysgol gynradd i gydymffurfio â'r cynllun hygyrchedd - mae'r cynlluniau'n cael eu datblygu ar hyn o bryd i'w gweithredu yn ystod 2023/24.</td></tr>
<tr><td>Gweithred 5.8</td><td>Byddwn yn gweithredu ein Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg.</td><td>Ysgolion a Diwylliant</td><td>Gwyrdd</td></tr>
<tr><td colspan="4">Canlyniadau:<ul><li>Mae Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg ar waith ac yn parhau tan 2021 hyd nes y cyhoeddir Cynllun Strategol 2021-2031.</li><li>Mae’r cynllun wedi ei weithredu a’r canlyniadau yn cael eu monitro.</li></ul></td></tr>
<tr><td colspan="4">Cafodd Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg ei gymeradwyo gan y Cabinet ym mis Gorffennaf 2022 yn dilyn diwygiadau yn seiliedig ar adborth gan Lywodraeth Cymru. Mae trosolwg o bum mlynedd a chynllun dwy flynedd manylach wedi'u cyflwyno i Lywodraeth Cymru a phwyllgor Craffu Cyngor Ceredigion i gael adborth. Bydd hyn yn cael ei gyflwyno i'r Cabinet i'w gymeradwyo yn 2023-24.<br><br>Cynhaliwyd cyfarfod cychwynnol y Fforwm ym mis Chwefror 2023 gydag Arweinydd y Cyngor, y Cynghorydd Bryan Davies, wedi'i benodi'n Gadeirydd a'r Cynghorydd Wyn Thomas yn Is-gadeirydd. Cynhaliwyd cyfarfod pellach ym mis Mawrth gyda'r Prif Swyddog Addysg, Swyddogion Adran Ysgolion a Phenaethiaid ysgolion cynradd trosiannol i'w diweddaru ar y cynllun gweithredu a fydd yn cael cyhoeddusrwydd mewn papurau newydd lleol ac a gyhoeddir ar wefan y Cyngor ar ôl cymeradwyaeth y Cabinet.</td></tr>
<tr><td>Gweithred 5.9</td><td>NEET (nad ydynt mewn cyflogaeth, addysg na hyfforddiant) – byddwn yn cynyddu'r cyfleoedd a'r darpariaethau ar gyfer pobl ifanc agored sy’n i niwed a gefnogir gan gwricwlwm amgen.</td><td>Porth Cymorth Cynnar</td><td>Gwyrdd</td></tr>
</table>

| | | | |
|---|---|---|---|
| | Byddwn yn sicrhau bod buddion cymunedol yn cael eu cynnwys fel gofyniad craidd i holl gontractau caffael perthnasol y Cyngor a bod canran y cyfleoedd Addysg, Cyflogaeth a Hyfforddiant a grëwyd yn cynyddu o’i gymharu â’r flwyddyn flaenorol. | | |

**Canlyniadau:**

- Nifer y cyrsiau newydd sydd wedi'u hychwanegu at ddarpariaeth y cwricwlwm amgen ers mis Medi 2019.
- Mae cynnydd da yn cael ei wneud; mae gan bob contract caffael CSC priodol fuddion cymunedol fel gofyniad craidd.
- Caiff cynnydd ei fesur trwy ddata ‘NEET’ blynyddol.

Mae Gweithiwr Ieuenctid wedi'i ddynodi i bob ysgol uwchradd. Maent yn darparu cefnogaeth mewn Unedau Cyfeirio Disgyblion (PRU) a'r Cwricwlwm Amgen.  Mae Gweithwyr Ieuenctid  yn gweithio'n agos gyda Mentoriaid Sgiliau a Swyddogion Atal a Dargyfeirio i ddarparu cymorth i bobl ifanc ôl-16 sy'n ‘NEET’ neu sydd mewn perygl o fod yn ‘NEET’. Ail-gysylltodd **63** o bobl ifanc gydag addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant ar ôl cael eu cyfeirio at weithiwr ieuenctid.

Darparwyd **88** o weithdai gan weithwyr ieuenctid. Mae'r rhain yn canolbwyntio ar ddatblygiad personol a chymdeithasol, lles ac Addysg, Cyflogaeth a Hyfforddiant – mae enghreifftiau'n cynnwys gwirfoddoli i'r gymuned leol, bowlio, garddio, diwylliant a darganfod treftadaeth Cymru a siaradwyr gwadd.

Mae staff y Gwasanaeth Ieuenctid a Dysgu Gydol Oes a Sgiliau yn parhau i weithio gyda Gyrfa Cymru a'r Ganolfan Byd Gwaith i ddatblygu profiad, prentisiaethau a hyfforddeiaethau i sicrhau bod y rhai nad ydynt yn barod i weithio yn gallu cael gafael ar gymorth. Cynigir sesiynau blas mewn gwaith coed, mecaneg, trin gwallt, harddwch a phlymio. Mae'r rhaglenni Gweithffyrdd+ a Cymunedau am Waith hefyd yn rhoi cymorth i bobl ifanc gael mynediad i Addysg, Cyflogaeth neu Hyfforddiant.

Mae angen mwy o waith i sicrhau bod cymalau budd cymunedol yn cynnwys targedau penodol ar gyfer lleoliadau profiad gwaith, swyddi newydd a grëwyd a chefnogaeth gan gontractwyr mewn digwyddiadau gyrfaoedd.

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Gweithred 5.10** | Byddwn yn helpu pobl hŷn a phobl anabl i fanteisio ar dechnolegau digidol, ac i gydnabod manteision bod ar-lein. | **Porth Cymorth Cynnar** | **Gwyrdd** |

**Canlyniadau:**

- Cynnydd yn nifer y cofrestriadau Dysgu Bro dros 50 oed.

| | | | |
|---|---|---|---|
| • Cynnydd yn nifer y bobl dros 50 oed ar ddosbarthiadau llythrennedd digidol.<br>• Cynnydd yn nifer y bobl dros 50 oed gydag anabledd neu anghenion dysgu ychwanegol sydd wedi cofrestru ar ddosbarthiadau llythrennedd digidol. | | | |
| Mae 186 o bobl 50+ oed wedi cofrestru ar gyfer cyrsiau gyda blwyddyn academaidd Dysgu Bro. O'r rhain nododd 8 person (4.3%) fod ganddynt anabledd neu anghenion dysgu ychwanegol. Rydym wedi cynyddu nifer y bobl drwy ddarparu mwy o leoliadau cymunedol o amgylch Ceredigion a chynnig gweithdai un dydd. Rydym wedi teilwra ein dosbarthiadau digidol i ymdrin â materion sy'n ymwneud ag unigolion, er enghraifft siopa ar-lein ac aros yn ddiogel ar-lein. Rydym hefyd yn benthyg gliniaduron yn ôl yr angen. | | | |
| **Gweithred 5.11** | Byddwn yn cynnig cyrsiau 'Chwarae Gyda'n Gilydd' (Hyfforddiant Ymwybyddiaeth Anabledd) i ddisgyblion ysgol er mwyn codi ymwybyddiaeth o namau a sut i gynnwys ffrindiau mewn gweithgareddau corfforol cynhwysol. | **Porth Cymorth Cynnar** | **Gwyrdd** |
| **Canlyniad:** Mewn partneriaeth â Phobl Ifanc Egnïol a Chwaraeon Cymru byddwn yn hyfforddi disgyblion ysgol a gwirfoddolwyr i ddysgu sut i addasu / cynnwys eraill mewn chwaraeon a gweithgarwch corfforol. | | | |
| Mae pob Llysgennad Ifanc Efydd mewn ysgolion cynradd wedi derbyn hyfforddiant yn 2022-23. Mae'n rhaglen dreigl flynyddol. | | | |